

ECO'R WYDDFA

Rhif 70

Mai 1982

Pris 20c

SEINDORF DEINIOLEN YN CASGLU £1,500



BRYNHAWN Sadwrn 17 Ebrill roedd Seindorf Arian Deiniolen ym Mangor i gyflwyno siec o £1,500 i Gronfa Apêl Gweithwyr Dinorwig. Dyma gyfraniad aelodau a chyfeillion y band tuag at y nod o'r £40,000 sydd ei angen i brynu peiriant i drin cancr i'w leoli ym Mangor.

Ym mis Ionawr y flwyddyn hon, derbyniodd y seindorf lythyr oddi wrth swyddogion y Gronfa Apêl yn gofyn am gefnogaeth. Bu'r ymateb ymhlith yr aelodau yn un brwdfrydig iawn ac aethpwyd ati'n syth i drefnu nifer o ddigwyddiadau i gasglu arian. Yn ystod yr wythnosau dilynol cynhaliwyd tri phrif weithgaredd - snwcer, nofio a beicio noddedig.

Cynhaliwyd y snwcer noddedig am 12 awr o 7 p.m. nos Wener Chwefror 16 tan 7 a.m. y bore canlynol. Bu nifer helaeth o aelodau'r seindorf yn gysylltiedig â'r gweithgaredd yma - yn chwaraewyr, yn drefnwyr ac yn gasglwyr noddwyr.

Bore Sadwrn Mawrth aeth dau aelod ifanc o'r Seindorf - Manon Humphreys a Julian Joannidi ynghyd â Dion Williams mab yr arweinydd a Bryn Jones, mab yr ysgrifennydd i Langefni i nofio 50 hyd o'r pwll. O ganlyniad i'w hymdrechion casglwyd swm sylweddol o arian.

Y diwrnod canlynol beiciodd dau aelod o'r Seindorf, - Eifion Wyn Hughes ac Andrew Brailsford 100 milltir o amgylch Ynys Môn. Haedda'r ddau bob clod am eu brwdfrydedd a'u ffurwydd!

Dymuna'r Seindorf ddiolch yn gynnes i bawb a gefnogodd y gweithgareddau a drefnwyd ganddynt ac am y rhoddion hael a gyfranwyd tuag at achos teilwng iawn.

Sefydlwyd Cronfa Apêl Gweithwyr Dinorwig flwyddyn yn ôl gan weithwyr M.B.Z. sy'n gweithio ar y Cynllun Trydan Dŵr Dinorwig.

Y peiriant sy'n cael ei brynu

yw'r Peiriant Gwres Thermotherapi Laveen - sydd wedi ei ddatblygu a'i adeiladu ym Mhrifysgol Bangor gan gwmni'r coleg 'Industrial Development (UCNW) Bangor Ltd.', yn dilyn rhaglen ymchwil gydweithredol cyd-rhwng Adran Beirianaeth Electronig Wyddonol y Coleg a Dr H.H. Laveen - sef y cyntaf i drin cleifion gyda'r dull yma.

Ar hyn o bryd mae'r peiriant yn Ysbyty Felindre, Caerdydd y brif ganolfan therapi cancr yng Nghymru. Mae angen mwy o ymchwil i'r peiriant cyn y bydd yn cael ei ddychwelyd i Fangor i'w osod a'i ddefnyddio yn Ysbyty Newydd Gwynedd.

Diddorol yw sylwi fod y peiriant yma, y cyntaf mewn ysbyty lechyd Cenedlaethol (mae'r unig un arall mewn clinig yn Stryd Harley) yn cael ei osod yn y ddinas ble datblygwyd ef.

Dyma gynllun sy'n bwysig nid yn unig i Wynedd ond hefyd i Gymru gyfan; yn wir mae o ddiddordeb rhyng-genedlaethol os ystyrir y sefyllfa eangach sef bod angen mawr am ragor o ymchwil i ganr.

O ystyried hyn mae'n syndod i'r Eco nad oedd camerau'r BBC a HTV i'w gweld ym Mangor ddiwrnod cyflwyno'r siec. Gwyddom iddynt gael eu hysbysu o'r digwyddiad mewn digon o bryd.

Diolchwn ar ran ein holl ddarllenwyr i Seindorf Deiniolen am eu cyfraniad hynod bwysig a'n llongyfarchiadau iddynt ar lwyddiant eu hymdrechion.

LLONGYFARCHIADAU IAN



Dyma Ian Jones, Hendre Newydd, Penisarwaun a enillodd fedal aur ym Mhencampwriaeth Nofio Gogledd Cymru yn y Rhyl yn ddiweddar.

Mae Ian wedi ennill llawer o gystadlaethau nofio. Mae yn ymarfer ym Mangor bob bore o saith o'r gloch hyd wyth o'r gloch, ac mae ei dad yn un o'r hyfforddwyr. Bydd Ian yn cystadlu yn yr Afon Lido, Porth Talbot y mis nesaf am Bencampwriaeth Cymru. Pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

"TAITH DRWY'R GOFOD" - I BWLLHELI



Eleni cafodd Adran yr Urdd Ysgol Gynradd Llanrug lwyddiant mawr yn Eisteddfod Cylch Eryri. Ar wahân i nifer helaeth o unigolion oedd yn cystadlu, ymddangosodd 75 o blant yr Adran Gynradd mewn deuddeg cystadleuaeth parti neu gôr. Enillwyd y darian gyda 96 o farciau.

Yn Eisteddfod y Sir ym Mangor daeth Ffion Williams yn ail am ganu Cerdd Dant dan 10 oed. Daeth y Parti Unsain a'r Grŵp Cerddoriaeth Greadigol yn ail hefyd. Ond eleni eto daeth Parti'r Ddawns Greadigol yn gyntaf. Byddant hwy felly yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwllheli i berfformio 'Taith Drwy'r Gofod'. Pob dymuniad da iddynt yno.

CROESO I'R FRO



Dyma'r Parchedig Aled Edwards, B.A., Ficer newydd Eglwys Penisarwaun a Llandinorwig. Cynhelir Cyfarfod Sefydlu Mr Edwards yn Eglwys Llandinorwig, nos Wener, Ebrill 30 am 7 o'r gloch. Bydd llun o'r achlysur yn rhifyn nesaf yr Eco. Mae'r Parch a Mrs Edwards, a'u mab bychan, Simon Dewi wedi symud i fyw i Glasgoed, Penisarwaun. Croeso cynnes iawn iddynt i'n plith.



Meirion Jones, Ysgrifennydd y Seindorf yn cyflwyno'r siec o £1,500 i Mrs Glenda Jones, Cadeirydd Cronfa Apêl Gweithwyr Dinorwig ym Mangor.

Cofiwch am

**GYFARFOD
CYFFREDINOL
BLYNYDDOL
ECO'R WYDDFA**

**6ed MAI
YN ANGORFA
STRYD Y FFYNNON
LLANBERIS**

**am 7.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb**

ECO'R WYDDFA

RHIF 70
MAI 1982

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776)

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Bwthyn Gwyn, Ffordd Deiniol,
Deiniolen

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 870550)

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGDD: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf

o'r wasg ar

MAI 27

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

MAI 18

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

CANOLFAN IAITH NANT GWRTHEYRN

Annwyl Syr,

Yn ddiweddar cafwyd
ymgyrch codi arian tuag at
Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn
ym mhentref Eder Llŷn.

Cafodd y Ganolfan eisoes
gryn dipyn o sylw yn y wasg a'r
cyfryngau yn ystod y
blynyddoedd diwethaf, fel
Canolfan i ddysgu a gloywi'r
Gymraeg i oedolion, yn bennaf,
felly nid bwriad y llythyr hwn yw
esbonio nac ymhelaethu
ymhellach ar y cynllun ynddo'i
hun. Yn hytrach llythyr apêl yw
hwn, i bentrefi ledled Cymru
ddilyn esiampl Eder a chodi
arian tuag at Nant Gwrtheyrn.
Dyma grynodedb o sut yr
aethpwyd ati yn ein pentref ni.

Ni ffurfiwyd pwyllgor llywio
ary cyfryw; aeth un dyn ati i lunio
wythnos o weithgareddau, a
dirprwyodd y gwaith i eraill i
ysgafanhau'r baich.
Gweithgareddau'r wythnos fu:
Seiat Hawl i Holi, Noson Goffi,
Cyngerdd a Reidio Beic
Nodedig.

Gellir mynd ati mewn sawl
ffordd i drefnu ymgyrch, ond a
gaf awgrymu un a hoffwn weld
yn llwyddo, sef YMGYRCH
PAPURAU BRO drwy Gymru
gyfan. Gallai pwyllgor bob papur
bro ddewis o leiaf pump pentref
yn eu dalgylch, gan annog
unigolion neu gymdeithasau, o
fewn y pentrefi i drefnu ymgyrch.
Felly'r papurau bro a fyddai'n
gyrru'r cwch i'r dŵr, gan adael y
trefniadau i'r pentrefwyr.

Gwn fod cant a mil o bethau
sy'n rhaid eu gwneud yn y gwaith
o adfer y Gymraeg yn ein gwlad
ond ysywaeth dyma'r un o'r
ychydig gynlluniau ymhle gwelir
pobl o bob plaid wleidyddol
drosto — NANT GWRTHEYRN.
Gellir efallai gyhoeddi rhestr o'r
symiau a ddaw i law'r papurau
bro, yn Y Cymro yn ystod
wythnos yr Eisteddfod
Genedlaethol. Tybed dalgylch
pwy bapur bro a fydd yn llwyddo
i gasglu'r swm uchaf? Gydag
elfen gystadleuol a hybu
diwylliant ynghlwm wrth y
gwaith, beth am fynd ati o ddifrif
'nawr. Gwnaed elw o dros £250 o
bunnau yma'n Eder, — beth
amdanoch chi?

Alwyn Pritchard,

Gelli Wen,

Eder,

Pwllheli.

Ffôn Nefyn 720075

GWEITHGOR DYSGU'R GYMRAEG I OEDOLION

Annwyl Syr,

Ysgw'n i a fyddai modd i mi ddwyn
ychydig o linellau o golofnau'ch papur i
roi tipyn o 'hysbys' i'r ffaith y cynhelir
cyfarfod cyntaf gweithgor Dysgu'r
Gymraeg i Oedolion Sir Gaernarfon
yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru
am 7.30 p.m. 20 Mai 1982.

Pwrpas y gweithgor hwn fydd
cysoni, cefnogi ac ymestyn y gwaith a
wneir yn y sir ar hyn o bryd ac estynnir
gwahoddiad cynnes, nid yn unig i'r

ffyddloniaid sydd wedi bod mor
weithgar yn y maes hwn ers
blynyddoedd, ond hefyd i unrhyw aelod
o'r cyhoedd a fyddai'n barod naill ai i
ymhyfforddi yn diwtor neu gynorthwyo
ar yr ochr weinyddol-gymdeithasol —
cynnal nosweithiau neu foreau coffi —
croesawu dysgwyr i'r tŷ — neu fynd â
nhw i siopa yn y dre — dosbarthu
taflenni — mae cymaint o bosibiliadau
a chymaint o angen gweithwyr newydd!

Yn gywir,

Elen Rhys

Tŷ Arlbee

Heol y Brodyr Llwydion

Caerdydd

PWY FEDR HELPU?

Annwyl Syr;

Gair i ddiolch ichwi am Eco'r
Wyddfa, papur bro penigamp sydd yn
dwyn atgof melyn aml i hen
gymeriad hoffus yn ardaloedd yr
Wyddfa, a pherthnasau hefyd. A oes
modd cael ambell ysgrif am hen
deuluoedd parchus y fro?

A oes rai o ddisgynyddion y Parch
Morris Hughes y Felinheli yn dal yn y
tir? Yr oedd ef yn oruchwyliwr gwaith y
Felinheli ac yn bregethur o fri. Credaf
ei fod yn hanu o hen deulu'r Fachwen
oedd â chysylltiad agos â'r chwarel, a
hefyd â chychwyn ymneilltuaeth yn
ardal Dinorwig a Llanberis. Diddorol
fyddai gwybod a oes rhywun o'r cyff
nodedig ar ôl. Y mae gennyf gysylltiad
pell â'r hen dylwyth hwn.

Diolch eto am eich gwaith,

Yn bur iawn,

E.R. Roberts,

Ilkeley Street,

Sheffield.

YR WYL LAFUR GYDWLADOL

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ddwyn i sylw'r
darllenwyr yr Wyl Lafur
Gydwladol sydd i'w chynnal ym
Mangor eleni. Bu Gŵyl Lafur yn
arferiad am sawl degawd yng
Ngwynedd a Llwyddwyd y
llynedd i ailgychwyn y
traddodiad urddasol o ddathlu
diwrnod rhyngwladol y dosbarth
gweithiol. Eleni mae cynghorau
undebau llafur Clwyd a Gwynedd
yn trefnu Gŵyl uchelgeisiol
ddydd Sadwrn, Mai 1af. Prif
thema'r Wyl yw 'gwaith nid
bomiau' sy'n ymateb cadarn i'r
argyfwng sy'n taro Cymru a'r byd
cyfalafol cyfan heddiw. Tra teflir
mwy ohonom ar y dŵl gwerir
mwy a mwy ar arfau rhyfel sy'n
cynyddol beryglu ein bodolaeth.
Felly, bydd y mudiad heddwch,
cynrychiolwyr y di-waith,
cymdeithasau a mudiadau
radical a sosialaidd yn ogystal â'r
undebau llafur yn chwarae rhan
blaenllaw yng
ngweithgareddau'r Wyl eleni.

Mae Sadwrn prysur yr Wyl
yn dechrau am 1.00 gyda
gorymdaith, a arweinir gan Fand
Llanberis, o faes parcio John
Edwards 'Cash and Carry' ar
Ffordd Caernarfon i adeilad
Undeb y Myfyrwyr. Yno, anerchir
gan yr Athro Gwyn A. Williams (Caerdydd), David Williams
(C.O.H.S.E.), Alwyn Rowlands
(A.U.E.W.), Jane Hutt
(Cynghorydd Sir) ac Ira Walters a

Betty Williams (Darpar
Ymgeiswyr Seneddol Llafur
Lleol). Mae gweddill y rhaglen
amrywiol yn cynnwys cyfarchion
rhyngwladol a drefnir gan Robert
Skillicorn (N.U.P.E.), ffilmiau,
theatr, arddangosfeydd,
stondinau, mabolgampau a
cherddoriaeth gan gynnwys
grwpiau pop. Darperir gofal
plant, lluniaeth ysgafn a bar. Mae
croeso, yn rhad ac am ddim, i
bawb i'r Wyl. Dewch, nid yn unig
am yr hwyl, ond hefyd i gefnogi'r
frwydr yn erbyn y Toriaid.

Yn frawdol,

Selwyn Williams

(ar ran Pwyllgor trefnu'r Wyl.)

Cartref,

Ffordd yr Orsaf,

Llanrug.

GALW SOSIALWYR

Annwyl Olygydd,

Llythyr byr i roi gwybod i'ch
darllenwyr bod cangen o'r
Gymdeithas Sosialaidd wedi ei
sefydlu'n lleol. Fe sefydlwyd y
Gymdeithas Sosialaidd yn Ionawr
1982 fel ffordd newydd i drafod a
hybu syniadau sosialaidd. Mae'n
gymdeithas amhleidiol sy'n cynnwys
sosiawlyd a sawl phlaidd a sosiawlyd
nad ydynt yn aelodau o unrhyw
blaid. Mae'r gangen leol yn cyfarfod
bob yn ail nos Iau i drafod pynciau
megis merched a sosiolaeth, y
cwestiwn cenedlaethol a
swyddogaeth y cyfryngau torfol a'r
Senedd. Cynhelir y cyfarfodydd
cyntaf yn 'The Olde Vaults', Stryd
Fawr, Bangor a mae croeso cynnes i
unrhyw un fynychu'r cyfarfodydd
neu i gysylltu â'r Ysgrifennydd
(Bangor 55855) am ragor o
wybodaeth.

Trefnir cyfarfod cyhoeddus gan
y Gymdeithas Sosialaidd i'w gynnal
yn Ystafell y Staff, Undeb y
Myfyrwyr, Ffordd Deiniol ym
Mangor am 2.30, Mai 2il. Trafodir
dyfodol a swyddogaeth Gwynedd
yng nghyd-destun Cymru. Y prif
siaradwr fydd yr Athro Gwyn A.
Williams sy'n adnabyddus fel
hanesydd y mudiad llafur yng
Nghymru ac awdur llyfrau ar Y
Chwyldro Ffrengig, Goya, Gramsci,
Madog a gwrthryfel Merthyr. Ar ôl
darlith ganddo ef ceir cyfraniad gan
R. Merfyn Jones, awdur 'The North
Wales Quarrymen 1874-1922', ar y
sefyllfa leol. Cadeirir y cyfarfod gan
Meri Huws, cadeirydd presennol
Cymdeithas yr Iaith.

Yn gywir,

Ann Williams

(Ysgrifennydd Cangen Arfon o'r

Gymdeithas Sosialaidd).

Ambassador's Cottages

Stryd Fawr

Bangor.

FFEITHIAU ANGHYWR

Annwyl Syr,

Llongyfarchiadau ar
lwyddiant Eco'r Wyddfa. Byddaf
yn edrych ymlaen at ei dderbyn
bob mis.

Mae'n ddrwg gennyf
ddweud fod rhai ffeithiau yn
'Agor Ffiniau'r Gorffennol' gan
Mary Lloyd Williams yn rhifyn
Ebrill yn anghywir.

Cyfeirio 'rydwyf at ail ran yr
erthygl ble mae'n sôn am y
ddamwain a ddigwyddodd i
'Nhaid, R.T. Pritchard, Tŷ
Newydd, Llanrug yn 1913 ac am
ei ffeithiau ynglŷn â'i blant.

Llythyrau parhad

Gadawyd Nain gyda phump o blant i'w magu gan gynnwys Richard oedd heb ei eni. Un ferch oedd yn y teulu ac nid dwy — sef Elizabeth Ellen (mam Arfon, Goronwy, Gwyn a Tom Davies a Gwawr Thomas).

Y meibion eraill oedd Tom a fu farw'n ddiweddar (tad Beti Evans a Selwyn Pritchard).

Huw — sy'n byw yng Nghaernarfon; a David John fy nhad innau — bu ef farw yn 1948 yn 41 oed.

Yn gywir,
Gareth Wyn Pritchard,
1 Rhiwedyn,
Llandudno.

PONT PENLLYN

Syr,

Gwawriodd bore Sadwrn braf arall. Codais, ymolchais ac i lawr y grisiau yn frysiog — oedd, 'roedd Eco'r Wyddfa, rhifyn Ebrill, wedi cyrraedd mewn pryd. Paratoi paned o de ac edrych ymlaen am gipolwg ar gynnwys yr Eco — dyna'r drefn yn ein tŷ ni, rhedeg trwyddo'n frysiog i ddechrau ond rhaid cael mwy o amser i'w ddarllen i gyd.

"Yr Hen Bont i'w Dymchwel" oedd y pennawd cyntaf i dynnu'm sylw, a darllenais ymlaen. Daeth rhyw flas annifyr i'm genau — 'roedd blas y te yn waeth!

Dymchwel Pont Penllyn — "dim ffiars o beryg" meddwn dros y gegin gan godi arswyd ar y bwji bach oedd yn mwynhau ei frecwast cynnar. Fel fflach daeth cerdd 'Sarnicol' — "Ar Ben y Lôn" i'm cof a chredaf y gellir addasu rhai o'r penillion i ddisgrifio Pont Penllyn, a dyma fynd ati ar unwaith i arall-eirio rhai o'r penillion, gyda phob dyledus barch i'r awdur.

"Ar Bont Penllyn ar hwyr o haf Mi gofiau gwmni gynt, Pob llanc yn llawn o ddifyr ddawn Ac ysgawn fel y gwynt.

Ac yna wedi aur fwynhad Tro lledrad ger y llyn, Bu llawer dau am ennyd fach Yn canu'n iach cyn hyn.

O amgylch canllaw Pont Penllyn Bu llawer sôn a si; Ond pob cyfrinach sydd dan sêl Ddiogel ganddi hi.

Y llanciau a'r llancesau glân Oedd gynt yn gân i gyd; A aeth hyd bedair ffordd o'r fan I bedwar ban y byd.

Mae Pont Penllyn i lawer un Yn llawn o swyn o hyd; Dof innau'n ôl i'r dawel fan O bedwar ban y byd."

Ple yng Nghymru y ceir gwell golygfa nag o Bont Penllyn, yng ngwres y dydd neu ar nos olau leuad? Does dim angen disgrifio ond dyfynnaf eto Soned fuddugol Eisteddfod Eglwys St. Peris 1950 gan frodor o Nant Peris, sy'n awr yn byw ym Mhontllyfni — Robert Thomas.

Ganwaith y dyddiau pell, bûm drosti hi,

Yn nwyd ieuencid a didaro hynt. Heb weld gogoniant a heb glywed si Yr hesg a'r don yn chware yn y gwynt.

Ond gwelaf erbyn hyn ddifedur ddawn

Y Llaw Anfeidrol lunoedd fro mor gain,

O sisial ddŵr a chraig, o rug a mawn, O laswellt i'r choed, o hesg a drain. Ac os gwêl Duw yn dda, am rhawd ar ben

Roi o'i drugaredd imi fythol heddi, Ni cheisiof well paradwys yn y nen, Na'r gornel dawel hon mor gain ei gwedd.

A thremio'n hir i'r hen fynyddau hyn A gweled Duw o ganllaw Pont Penllyn."

"Posiblwydd i'r bont gael ei dymchwel" a ddywed yr Eco. Beth amdani ddarllenwyr, hen ac ifanc. Hogiau Brynrefail, heb enwi neb; y rhai hynny fu'n ddisgyblion yn Ysgol Ramadeg Brynrefail yn y 40au a chyn hynny. Oes bosib gwneud rhywbeth i adfer Pont Penllyn, er cof am a fu ac er mwyn y genhedlaeth sydd i ddod?

Enid Jones
Bryn Gelli
Tal-y-sarn
Gwynedd

Ein diolch i chwi Mrs Jones, ac i lu o rai eraill sydd wedi cysylltu â ni am eich consyrn ynglŷn â'r hen bont. Wel, cysgwch yn dawel i gyd, nid oes sail i'r stori fod y bont i'w dymchwel. Daeth Eco Ebrill o'r wasg ar y cyntaf o'r mis! — Gol.

Bethel

SEFYDLIAD Y MERCHED — Aeth aelodau'r gangen leol i Blas Tan Dinas, Dinas Dinlle nos lau Mawrth 18 i ddatlu Gŵyl Ddewi. Anrhegwyd Miss Gwyneth Parry, Dôl Erw a Mrs Lily Barolow, Bro Rhos gyda phlanhigion o flodau i ddangos ein gwerthfawrogiad am y cyfraniad yn ystod misoedd lonawr a Chwefror.

CYDYMDEIMLO — Nos Sadwrn Mawrth 27 yn ei gartref, bu farw Mr Owen Lewis, Tre Gof. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Dydd lau Ebrill 22 ar ôl gwaelled hir bu farw Mr D.J. Williams, Bryn Rhedyn. Estynnwn ein cydymdeimlad â Nerys, ei wraig, a'r teulu i gyd.

YSGOL SUL Y CYSEGR — Nos Fawrth, Ebrill 27 aeth plant ac athrawon yr Ysgol Sul i Gaerwen am swper. Trefnir y Swper oherwydd gohiriwyd te parti adeg y Nadolig.

Cynhelir y Gymanfa eleni yn Neiniolen — Mai 2il.

CHWARAE'R PIANO — Ebrill 30 mae nifer o ddisgyblion Mrs Heulwen Williams yn cystadlu chwarae piano yn y 'Chester Festival' — dymunwn bob llwyddiant iddyn i gyd.

PLAID CYMRU — Cafwyd noson ddifyr iawn yn y Neuadd nos Wener, Ebrill 16. Daeth Rofi yno i swyno pawb a'i driciau a'r grŵp 'Gwlith' a'u canu swynol. Dymunwyd y gorau i'r grŵp fydd yn cynrychioli Cymru yn yr Wyl Ban-Geltaidd yn lwerddon.

Mae'r Blaidd wedi trefnu ffair yn y Neuadd nos Wener, Ebrill 30. Gobeithir cael cefnogaeth deilwng.

Wil a Val
Guy

STORFA
TREFLYN
BETHEL

felinheli 670237

Bwydydd Teganau
Diodydd Dafedd
Melysion

YNG NGHWMNI ROSALIND A MYRDDIN



Mai 18 bydd Teledu'r Tir Glas yn recordio rhaglen deledu ar gyfer S4C yn Theatr Seilo Caernarfon. Bydd y rhaglen yn rhan o gyfres o raglenni ar gerddoriaeth boblogaidd a ddarlledir yn ystod y gaeaf nesaf.

Noson 'Yng Nghwmni Rosalind a Myrddin' fydd hon gyda'r ddeuawd boblogaidd yn cyflwyno detholiad

o'u caneuon. Eu gwestai ar y noson honno yw 'Gwlith' — sef y grŵp gwerin o Ysgol Brynrefail. Hwn fydd ymddangosiad cyntaf y genod ar gyfer y teledu.

Estynnir gwahoddiad i bobl y fro i fod yn rhan o'r gynulleidfa ar y noson. Mae tocynnau i'w cael yn rhad ac am ddim oddi wrth Mrs Carys Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug neu oddi wrth Teledu'r Tir Glas, Y Bwlan, Llandwrog.

GWEU BABIS

Nos lau, 20 Mai, cawn gyfle yn y fro hon i fwynhau cyflwyniad Cwmni Hwyl a Fflag o'r gomedi wreiddiol gan Dwynwen Berry, 'Gweu Babis'. Stori ydyw am ddwy ferch yn rhannu fflat yn y brifddinas — y naill yn ferch gymdeithasol, soffistigedig a'r llall yn eneth ddof o gefn gwlad.

Bydd y cwmni sy'n cynnwys yr actorion Wyn Bowen Harris, Iestyn Garlick, Gwen Ellis a Manon Eames yn perfformio yn neuadd Ysgol Brynrefail Llanrug am 7.30 (Mai 20). Pris mynediad 70c, plant a phensiynwyr 40c. Bydd posteri i'ch hatgoffa yn ymddangos yn sippau'r ardal yn ystod y dyfodol agos. Ceir gwybodaeth ynglŷn â thocynnau ar y posteri.

Trefnir y cyflwyniad gan bwyllgor gweithgareddau Eco'r Wyddfa yn ystod y noson, bwriadwn dynnu gwobr gyntaf Clwb Cefnogwyr yr Eco. Os ydych yn awyddus i gael y cyfle o ennill y wobr (a gwobrau eraill yn


ystod y flwyddyn) ond nid ydych eto wedi ymuno â'r Clwb yna gellwch wneud hynny drwy dalu £6.00 o dâl aelodaeth cyn Mai 20. Cysylltwch â Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Cwm-y-glo. Ffôn: Llanberis 870416 neu ag unrhyw un o swyddogion yr Eco.



DRAENOG

Mae pob mamyn y fro yn gwybod am ofal tyner ein nyrsus cymuned a'n hymwylwr ieuchyd adeg genedigaeth plant, ond mae Draenog wedi clywed am un nyrs a gariodd ei dyletswyddau braidd yn rhy bell! Collodd un o'r nyrsur bro'r Eco ei het ar ddiwrnod gwyntog ym mis lonawr tra'n mynd o gwmpas ei gorchwylion yng nghyffiniau Deiniolen. Wythnos neu ddwy yn ôl daeth yr het i'r golwg ar fuarth fferm yn llawn wyau. Hen gwyn bellach yw'r un am brinder gwelyau yn wardiau mamolaethin hysbytai, ond dyma un nyrs sydd yn haeddu medal fel padell ffrio (yn llawn o wyau?) am ei chymorth i'r iâr arbennig yma yn Neiniolen.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Ffiniau'r Gorffennol

WILLIAM WILLETT A'R CLOC

Yn y flwyddyn 1905 yr oedd dyn o'r enw William Willett yn byw yn Lloegr. Yr adeg honno yr oedd Willett bron yn hanner cant oed. Dyma fo'n gwneud sym anghyffredin o'i ben ei hun. Dyfeisiodd broblem a setlodd hi ei hun.

Canfu Willett fod pobl Prydain yn colli 154 o oriau golau bob blwyddyn trwy orfod aros gartref yn y bore gan ei bod yn rhy dywyll iddynt fynd allan i weithio.

Wedi cael y ffigur yma, dyma fo'n sgrifennu at bob Aelod Seneddol ac egluro y buasai'n bosibl i ddeugain miliwn o bobl Prydain Fawr gynilo swm aruthrol o fawr mewn tân a goleuni ac arian, pe buasent yn troi'r clociau ymlaen awr yn ystod oriau'r haf. Chware teg i William Willett am feddwl drosto ei hun! Wrth gwrs byddai'n rhaid troi'r cloc yn ôl yn yr hydref.

MAI 21, 1916

Ychydig o ddyddiau cyn marw William Willett y pasiwyd deddf yn y Senedd i roi prawf ar ei awgrym. Os oes rhai ohonoch wedi cael eich geni ar Fai 21, 1916, dyna rywbeth i chwi gofio'r dyddiad. Cofiwch mai pasio'r ddeddf yn unig a wnaed ar y dyddiad yna. Yn ystod y gwanwyn canlynol, sef 1917, y rhoddwyd y cloc awr ymlaen gyntaf.

Gwnaeth Ffrainc, yr Eidal a'r Almaen yr un fath. Fe stopiodd yr Unol Daleithiau a Chanada droi'r cloc ar ddiwedd 1919. Ond daliwyd ymlaen ym Mhrydain Fawr hyd Hydref 1968, pan na chafodd y clociau eu troi yn ôl.

HYDREF 31, 1971

Hydref 31, 1971 dyma benderfyniad i droi'r cloc yn ôl eto awr. Daeth y B.S.T. (British Standard Time) i ben. Ailddechrau y G.M.T. wedyn, sef y Greenwich Mean Time.

Nos Sadwrn, Mawrth 27 eleni yr oeddym yn troi'r cloc ymlaen awr.

Onid yw yn syndod i William Willett feddwl am y syniad!

Byddaf yn rhyfeddu at y ddyfais i rannu'r diwrnod yn oriau, munudau ac eiliadau. Rhyfeddod tu hwnt. Mae'n weddol hawdd rhannu amser yn ddyddiau, wythnosau, misoedd a blwyddyn, ond am rannu wedyn yn oriau, a'r munudau a'r eiliadau - mae hon yn ddyfais nas gellir ei hamgyffred.

Yr oedd y diweddar Moses Jones, Llanrug yn un da am drwsio cloc mawr ond mi fethodd â thrwsio cloc mawr Llys Awen, fy nghartref. Ac fel hyn y canodd fy nhad i'r

amgylchiad:

Yn Llys Awen mae hen gloc
Wedi stopio dweud "tic-toc."
Dywedwch im' pwy all ei drwsio
Os yw Mosus wedi misio?

Mosus sydd wedi misio - rhoi yn ôl
Yr hen wyth, a'i windio:
Rhyfedd iawn ei berfedd o, -
Taerodd y buasai'n taro.

Mi af, ac archaf gyrchu - "Y Lliw
Glas,"

Y llew glew, difethu:

Fe ofyn ef hyn - "A fu
Ddyn o'i fodd yn ei faeddu?"

Glan Rhyddallt

Galwem y dyn fyddai'n trwsio clociau yr ardal erstalwm wrth yr enw 'Y Llew Glas'.

Erbyn heddiw y mae miloedd o wahanol syniadau yn gwibio trwy feddyliau'r ieuanc. Y mae'r hen a'r newydd yn y gwahanol beiriannau yn ddiderfyn.

Yn y drydedd ganrif ar ddeg y gwnaed y cloc cyntaf. O hynny hyd heddiw y maent yn dal i ddarganfod gwelliannau i weithio'r cloc a'r oriawr. Y mae ambell oriawr am y garddwrn yn anhygoel o gywrain.

Y ffordd gyntaf i fesur amser oedd deial yr haul (sun dial). Ond doedd dim posib mesur yr amser ar ôl iddi dywyllu gyda deial yr haul. Dyna oedd y rheswm i ddynion orfod dyfeisio pethau mecanyddol er mwyn medru gwybod faint oedd hi o'r gloch nos a dydd.

YR HEN GLOC MAWR

Welsoch chi rywbeth harddach na hen gloc hen ffasiwn yn dangos tymhorau'r flwyddyn ac yn newid mewn lliwiau hardd - gelwid ef 'Yr Hen Wyth Niwrnod' am y byddai raid ei weindio bob wyth diwrnod.

Clywais fod gan Mr Bernard Mason yn Essex erstalwm gasgliad o dros ddau ganto glociau. Dyna orchwyl oedd windio'r rheiny ynte? Gresyn na allai ambell gloc mawr siarad a dweud hanesion y teulu yn ystod y ganrif!

CYWIRO

Fel hyn y dylasai brawddeg yn yr hanes "Damwain yn y Chwarel 1913" fod wedi darllen yn y rhifyn diwethaf:

"Gadawyd ei fam i ofalu am bump o blant amddifaid - Tom, Elizabeth Elin, David John, Huw ac un heb ei eni, sef Richard.

M.L.I.W.

GŴYL DDrama IEUENCTID

Unwaith eto eleni mae Cyngor Gwlad Gwynedd, gyda chymorth Cymdeithas Celfyddydau Gogledd Cymru, wedi trefnu Gŵyl Ddrama Ieuencid. Hon fydd yr ail ŵyl i'w threfnu fel hyn. Fe'i cynhelir yn Theatr Seilo, Caernarfon nos Fercher a nos Iau, Mai 5 a 6, 1982. Y llywydd fydd Mr Tecwyn Ellis, Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd, a'r beirniad Mr Edwin Williams, Llanfairfechan. Cymerir rhan ar y nos Fercher gan bartion o Ysgol Syr Hugh Owen,

Caernarfon; Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda; ac Ysgol Tryfan, Bangor. Ar nos Iau bydd partion o Ysgol Eifionydd Porthmadog (dwy ddrama); Aelwyd yr Urdd, Coleg Technegol Bangor; a Chapel Soar, Penygroes.

Dechreuir am 7.30 o'r gloch. Mynediad 50c (plant a phensiynwyr 30c). Gellir sicrhau tocynnau o Siop Gray-Thomas; Swyddfa'r Cyngor Gwlad, 2 Cei Llechi, Caernarfon neu gan Tony Elliott, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun (Ffôn: Llanberis 872438).

CWM-Y-GLO

UNDEB Y MAMAU - Ebrill 14 treuliodd Undeb y Mamau Cwm-y-Glo a Llanrug y noson yn y Foelas Llanrug. Mwynhaodd y merched bryd ysgafn yno ac ar ôl bwyta cyflwynodd Miss Ceridwen Hughes freichled arian oddi wrth y ddwy gangen i Mrs Williams, y Rheithordy. Darllenodd Mrs Watkins ran o 'Salem' gan Cynan a dymunodd Mrs Dorothy Jones bob hapusrwydd i Mrs Williams a'r Rheithor yn eu cartref newydd yn Rhosneigr.

DIOLCH - Dymuna Mrs Annie Hughes a'r teulu Bryn, ddatgan eu diolch i'w cymdogion a'u cyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr annwyl iawn.

CLWB-Y-GRAIG - Cynhaliwyd Eisteddfod Clwb-y-graig Mawrth 26 yn y Ganolfan gyda phentrefi Cwm-y-glo a Brynrefail yn cystadlu. Llywydd y noson oedd Mr R.H. Parry, Llandudno, gynt o Gwm-y-glo, a'r beirniad oedd - Cerdd, Mrs Mair Lloyd Hughes, Llanrug, Adrodd a Llên, Mr John H. Hughes, Llanberis, Arlunio, Mr Leslie Jones, Penisarwaun, Gwnio, Mrs Pat Jones, Brynrefail. Cyfeilydd Miss Lowri Roberts, Brynrefail. Enillwyd Cwpan Mrs Eryl Roberts, am unawd ar y piano, gan Caron Jones, Brynrefail a Chôr Cymysg Brynrefail ddaeth yn gyntaf i ennill Cwpan Clwb Ieuencid. Yr oedd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth ac yn ôl beirniadaeth Mr Leslie Jones yr oedd arlunio'r plant o safon uchel iawn.

Enwir y rhai a ddaeth yn gyntaf ym mhob cystadleuaeth:

ADRODD - Dan 4: Gwenan ac Ellen Roberts. Dan 6: Nicola Houston. 6-8: Carys Williams. 8-10: Catrin Gwyn. 10-12: Joanne Evans. Dros 50: Mrs Hughes, Cwm-y-glo. Cyd-adrodd: Parti Jacqueline, Brynrefail. Brawddegau a Storiâu: Dan 10: Catrin Gwyn. Dan 12: Glenda Walters. Brawddeg yn cynnwys llythrennau CANOLFAN: Mr L. Hughes. Parodi: Miss Lowri Roberts. CERDD - Dan 4: Ellen Roberts. 4-6: Nicola Houston. 6-8: Carys Williams. 8-10: Catrin Gwyn. 10-12: Sali Ellis. 12-14: Alwen Jones. Côr Plant: Côr Alwen, Brynrefail. Unawd dros 50: Mrs Euronwy Jones. ARLUNIO - Dan 5: Darren Jones. Dan 8: Dosbarth A. Nicola Houston,

Dosbarth B. Alan Sinclair. Dan 10: Catrin Gwyn. Dan 12: Sali Ellis. Gwaith Gwnio: Mrs Jenny Maxwell. Croshio: Mrs Jenny Williams. Gwaun Côt i Faban: Miss Sioned Roberts. Gateau: Mrs Margaret Williams. Spwng Victoria: Myfanwy Roberts.

Dymuna Pwyllgor Clwb-y-graig ddiolch i bawb fu'n gyfrifol am wneud yr Eisteddfod mor llwyddiannus.

(Er cof am Ted Pritchard, gynt o Cwm-y-glo a fu farw yn Lloegr, Ionawr 6, 1982 ac a gladdwyd yn Trefor, Llanaelhaearn.)

Penillion coffa iddo gan ddau gyfaill a fu gynt yn y Cwm yn byw sef Emlyn Griffith, Dinorwig a John Evans, Clwt-y-bont.

Cilio mae'r dolennau cydiol

Fu'n cyfannu fy holl fro,

Wele eto gyfaill annwyl

Ar ei ffordd i wely'r gro;

Wedi bod yn hir gyd-gerdded

Yn ei gwmni flwyddi maith,

Gofid ddaw i'm calon heddiw

Wrth ei ddwyn i ben ei daith.

Cofio'r amser gynt dreuliasom,

Yn y Cwm yn sionc a rhydd,

Crwydro'r hen lechweddau annwyl

Mewn boddhad o ddydd i ddydd;

O Benllyn hyd Lan Bogelyn,

Carreg Frân a rhodfa'r Ddôl,

Rhown y byd am weld y dyddiau

Annwyl hynny eto'n ôl.

Do, collasom gyfaill hawddgar,

Pan aeth Ted i arall fro,

Os bu farw dros Glawdd Offa

'Roedd ei galon yng Nghwmyglo;

Daeth yr awr i'w alw adref

I dawelwch erw Duw,

O dan gwrldd hardd o flodau

Teyrnged ei anwyliad gwiw.

Boed i'w briod hoff a'r teulu

Bob ymgeledd oddi fry,

Yn eu hiraeth daw atgofion

Melys am y dyddiau fu;

Pan fo dagrau yn eu llethu,

A'u calonnau fel y cwyr,

O'r unigrwydd a'r tawelwch,

Daw goleuni gyda'r hwyr.

John David Evans

Maes y Dref,

Clwt-y-bont,

Deiniolen.

"STEDDFWS '82"

ELENI, mae'r Eisteddfod Genedlaethol, gyda chydweithrediad agos Bwrdd Croeso Cymru, Cwmni Bysus Cenedlaethol a Swyddfa Dwristiaeth Abertawe, yn lansio cynllun gwyliau newydd a elwir yn "Steddfws '82".

Bwriad y cynllun hwn yw galluogi pobl o bob cwr o Gymru i ddod i Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch, gan wybod y bydd pob peth wedi ei drefnu ar eu cyfer. Y mae'n gynllun hyblyg iawn, ac yn un a fwriedir i lenwi bwlc amlwg. I bobl heb drafndiaeth, i bobl sy'n byw ym mhen arall y wlad, er enghraifft, fe fydd yn ffordd ddelfrydol a rhad i dreulio gwyliau yn yr Eisteddfod.

Rhydd i bawb ddewis pryd y mynnatn ddod ac am ba nifer o nosweithiau, ac fe amrywia'r pris o £33 am ddwy noson i un person i £94 am wyth noson i un person. Mae'r pecyn hefyd yn darparu ar gyfer parau a theuluoedd.

Cynhwysir nifer o elfennau deniadol yn y gwyliau. Yn fras, ceir taith fws ar unrhyw fws Cenedlaethol i Abertawe ac yn ôl, gwely a brecwast cyfleus, teithio di-dâl trwy gydol yr arhosiad ar fsys lleol - o'r gwesty i'r Eisteddfod ac o gylch yr ardal, - taith i Sain Ffagan, gwerthebau i'w defnyddio i brynu tocynnau

Eisteddfod a mynediad am ddim i'r maes bob dydd.

Gweithredir y cynllun eleni o Swyddfa'r Eisteddfod yn Abertawe. Fe fydd taflenni a ffurflenni cais ar gael o holl Ganolfannau Croeso y Bwrdd Croeso yng Nghymru, o swyddfeydd Cwmni Bysus Cenedlaethol ac oddi wrth yr Eisteddfod Genedlaethol.

Y bwriad yw cynnig y gwyliau hwn bob blwyddyn, er mwyn i bob ardal o'r wlad gael budd ohono.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR

A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL

SYSTEMAU

GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan.
Dim un dasg rhy fawr..

PENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun Ebrill 5. Fe ddangosodd Mr a Mrs O.C. Roberts, Elidir View, Llanrug ffilmiau o'u taith i Batagonia ac fe gawsom ychydig o hanes y Wladfa. Diolchodd Mrs O. Thomas iddynt. Rhoddwyd y te gan Mrs G. Lewis. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Mai 17 – noson goffi tuag at Gymorth Cristnogol. Croeso i bawb.

Nos Sul Ebrill 4 fe gyflwynodd Mr Bryngwyn Griffiths anrheg fechan i'r Parch Gwynfor Williams, Rheithor Llanrug, ar ei ymadawiad o Lanrug i Rosneigr, Ynys Môn. Diolchodd Bryn iddo am ei wasanaeth arbennig i ni ym Mhenisarwaun. Gobeithiwn y bydd Mr a Mrs Williams yn hapus yn eu plwyf newydd.

LLONGYFARCHWN – Carol a Jonathan Jones, 21 Bryntirion ar enedigaeth merch fach, Lyn.

PEN-BLWYDD – Llongyfarchwn Mrs K. Jones, Rhoswian yn 80 oed ddiwedd Ebrill. Fe ddathlodd Barry Jones, Camelot ei ddeunaw oed a Tony Oulton, Bryneithin ei un ar hugain oed yn ddiweddar.

Dymunwn wellhad buan i Mr Robert Owen, Cae Corniog Bach, sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty ym Mangor. Bu Mrs Glenys Williams, Trem Cynfi, hefyd yn yr ysbyty a Llion Roberts, 6 Bryn Eglwys. Mae amryw yn cwyno ar hyn o bryd, yn eu plith Miss Gwenifer Jones, 7 Bryntirion a Mr Hughie Williams, Tan y Ffordd. Brysiwch wella i gyd.

CYDYMDEIMLWN – â Mrs O. Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Mrs K. Williams, 8 Llys y Gwynt, Mrs Alice Thomas, Tai Arthur a Mrs Williams, 15 Bryntirion sydd wedi colli perthnasau yn ddiweddar.

BEDYDDIWDYD – Christopher Dewi, mab bychan Mr a Mrs Turner, Tyddyn Difyr, dydd Sul Ebrill 18 yn yr Eglwys Gatholig, Llanberis, ac ar ddydd Sul y Blodau yng Nghapel y Sgoldy bedyddiwyd Elgan Price, mab bychan Mr a Mrs Alwyn Williams, Cae Bythod Mawr.

FE GASGLWYD £18.53 tuag at gartrefi Eithinog (Cheshire Homes). Diolch i'r rhai a fu o amgylch y pentref yn casglu.

CLWB YR HEULWEN – Bu cyfarfod o'r Clwb ddydd Mawrth Ebrill 20. Y gŵr gwadd oedd y Parch Marcus Robinson, Llanberis ac fe roddodd sgwrs ar yr Hen Gaernarfon. Hefyd fe roddodd gân neu ddwy i ni. Rhoddwyd y te gan Mrs J.P. Jones, 13 Bryntirion a Mrs Rose Jones, 26 Bryntirion, fe enillodd Mr J.M. Jones y raffl. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd

Mawrth Mai 18.

CROESO i Mrs a Mrs Patrick a'r plant i'n plith. Maent wedi cartrefu yn Tŷ Hen.

CROESO ADREF hefyd i Len Porter ar ôl taith Côr Meibion Caernarfon i America.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Leslie Jones, Meililionydd ddiolch yn gynnes iawn i'r llu ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a mam yng nghyfraith. Diolch yn arbennig am y rhoddion ariannol (£175) tuag at Adran yr Arennau, Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

DIOLCH – Dymuna Mrs A.M. Morris, 4 Marian Terrace ddiolch yn garedig iawn i'w theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion am ei holl garedigrwydd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei hannwyl briod, ac am y llu cardiau a'r blodau. Diolch hefyd i Mr a Mrs J. Owen, Bae Cemaes, Ynys Môn, gan ymddiheuro iddynt nad oedd eu henwau gyda'r rhai teulu yn yr adroddiad yn y 'Caernarvon and Denbigh Herald'. Diolch i bawb.

Dymuna Mrs Ellen Close, 16 Maes Gwylfa ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion, a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd tra bu yn derbyn triniaeth feddygol. Diolch hefyd i'r staff y ward llawfeddygol isaf ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

CANMLWYDDIANT EGLWYS Y SANTES HELEN PENISARWAUN 1883-1983

Ar ddydd Sul, 13 Chwefror 1983 bydd Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun yn dathlu ei chanmlwyddiant. Fel rhan o'r dathliadau sy'n arfaethedig ar gyfer yr achlysur, gobeithir cyhoeddi llyfryn yn adrodd hanes yr Achos yn Eglwys St. Helen. Gyda hyn mewn golwg, ogyfnnwn i ddarllenwyr yr Eco am unrhyw ddogfennau, darluniau neu hanesion a fydd yn gymwys i adlewyrchu hanes yr Eglwys. Anfonwch at Warden y Bobl, Tegid Roberts, Ysw., Arwel, Llanrug, neu Bryngwyn Griffiths, Ysw., 5 Bryntirion, Penisarwaun. Bydd ychwaneg o fanylion am y dathliad arbennig hwn yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

AR WERTH

Bwrdd gwisgo (dressing table) addas ar gyfer ystafell geneth ieuanc. Ffôn Caernarfon 3515.

EISTEDDFOD PENISARWAUN

Cyn i'r 'Eco' nesaf ymddangos bydd Eisteddfod Penisarwaun wedi'i chynnal. Cynhelir yr Eisteddfod yng Nghapel Glasgoed nos Wener, Mai 14, 1982 yn dechrau am 5.30 o'r gloch. Llywydd yr Eisteddfod eleni fydd Mr Morgan Evans o'r Gaerwen, Ynys Môn, un o 'feibion' Penisarwaun. Mae'r pwyllgor wedi sicrhau gwasanaeth pedwar o feirniaid rhagorol, sef – Cerdd: H. Garison Williams, Pencaenewydd. Llên ac Adrodd: Derfel Gruffydd, Caernarfon. Arlunio: Islwyn Williams, Penisarwaun. Gwaith Llaw a Choginio: Miss Ann Owen, Penisarwaun. Y cyfeilydd fydd Mr Brian Williams, Pontllyfni a'r Arweinyddion fydd Miss Phyllis Ellis (Llywydd y Pwyllgor) a Tony Elliott.

Yn ôl amodau a rheolau'r Eisteddfod mae'r testunau hyd at 12 oed yn gyfyngedig i blant dalgylch Ysgol Gynradd Tan-y-coed, Penisarwaun, ond mae'r testunau dros 12 oed hyd at 18 oed yn agored i'r byd. Cynigir gwobrau ariannol

YN EISIAU

Amser 'spring cleaning'? Peidiwch â thaflu'r hen luniau, hen daflenni, hen adroddiadau capel etc. Anfonwch hwy i Dafydd Thomas, Bron y Nant, Llanrug – neu fe drefnaff i'w cludo.

YN EISIAU – Cartrefi i gŵn bach. Cysyllter â Mrs Coombs, Cilwern, Tai Lerpwl, Penisarwaun.

Sut i fod yn sarhaus:

'Rydw i'n un da am gofio wyneb – ond fe wna'i eithriad yn eich achos chi.

hael felly chwi gantorion, beirdd, llenorion ac adroddwyr ieuainc bro'r 'Eco'r, dewch i gystadlu. Bydd croeso cynnes iawn yn eich disgwyl. Mae copïau o'r Rhestr Testunau ar gael gan yr Ysgrifennydd, Mr Len Jones, 6 Tai Arthur, Penisarwaun.

TÎM DIOGELWCH Y FFYRDD BETHEL



Dyma Helen Jones, Gwenan Davies, Alan Williams a'u capten Linda Williams – tîm Diogelwch y Ffyrrdd ysgol gynradd Bethel. Maent wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn mewn cystadleuaeth sy'n cael ei chynnal drwy holl ranbarthau Gwynedd. Gwyndaf Jones o Lanrug yw trefnydd y gystadleuaeth yn Arfon. (Llun: I.L. Jones)

DARLITH

Nos Fawrth, Mai 11 traddodir darlith yn Oriel Eryri, Llanberis ar 'Nofelau T. Rowland Hughes'. Y darlithydd fydd y nofelydd John Rowlands. Dechreuir am 7.30 ac mae mynediad yn rhad ac am ddim. Am ragor o wybodaeth ffoniwch Llanberis 870636.

REGATA RYWO AR LYN PADARN

Cynhelir regata rwyfo Colegau Prifysgolion Cymru ar Lyn Padarn ddydd Sadwrn Mai 1af. Yn Ne Cymru yr arferid cynnal y gystadleuaeth hon.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

WAUNFAWR

LLONGYFARCHIADAU – i Anthony Marston am ddod yn ail ar yr Unawd Chwythbrennau dan 15 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn Llandudno. Mae Anthony, sydd yn canu'r baswn, hefyd wedi cael ei ethol yn aelod o Gerddorfa Ieuencid Gogledd Cymru ac wedi bod yn ymarfer gyda'r gerddorfa yn ystod gwyliau'r Pasg.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR – Dyma restr o enillwyr y Cwlb 300 am fis Mawrth: 1af, £40 – Rhif 188 T.G. Williams, 17 Tref Eilian; 2il £25 – 199, Mrs Rhian Ellis, Glyn Awel; 3ydd, £10 – Rhif 125, Alan Trefor Jones, Cae Trefor.

CLWB CANT PLAID CYMRU – Mis Mawrth – 1. W.T. Owen, Noddfa; 2. Keith Owen; 3. Mrs S. Jones Evans. Mis Ebrill – 1. Greta Hughes; 2. Mrs S. Jones Evans; 3. Marilyn Roberts.

LLONGYFARCHIADAU – i Ann a Morus Elfryn ar enedigaeth mab, Osian, brawd i Deian a Heledd.

I Elaine a David Parry, 4 Bro Waun, ar enedigaeth merch, chwaer i Brian, Clifford a Kevin.

I Mr a Mrs W.T. Owen, 18 Tref Eilian ar ddathlu eu Priodas Arian.

I'r canlynol ar lwyddo mewn arholiadau cerddoriaeth: Theori Gradd 1: Joanna Marston, Blaen y Nant; Gradd 2: Alan Benham, The Haven; Piano, Gradd 3: Huw Ynyr, Tan y Fron.

ADREF O'R YSBYTY – Mae Mrs Phyllis Jones, Rhoslan a Mrs M.E. Parry, 4 Rhos Eilian wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ar ôl cael triniaeth lawfeddygol, a da yw deall eu bod yn gwella yn foddhaol. Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Mr W.T. Owen, 18 Tref Eilian. Gobeithiwn ei fod yntau yn gwella.

Anfonwn ein cofion at Miss Rosa Hughes yng Nghaernarfon sydd wedi bod yn anlwcs iawn unwaith eto yn torri ei braich.

CYDYMDEIMLWN – â Mrs J. Monica Roberts, Bryn Golau ar golli brawd yng Nghaernarfon.

YR URDD – Daeth tymor yr Urdd i ben cyn gwyliau'r Pasg, gyda chyngerdd gan y plant. Cafodd y rhieni ddod i'r cyfarfod olaf i glywed y plant yn canu ac yn adrodd y darnau buont yn eu dysgu ar gyfer yr eisteddfod, ac i weld eu gwaith llaw. Yn ystod y cyfarfod hefyd, diolchwyd i'r plant am gasglu £109 i Fudiad yr Urdd. Derbyniodd Gwennan Jones fathodyn aur, Shoned Roberts fathodyn arian, a Siân Jones, Nia Jones, Osian Gwynedd, Nan Wyn a Rachel Pierce fathodynau efydd. Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n eu hyfforddi, ac i'r rhieni am eu cludo i'r eisteddfod a'r pwll nofio yn ystod y flwyddyn. Ac wrth gwrs, diolch i Kevin a Gareth am ofalu am y plant bob wythnos.

MERCHED Y WAWR – Cyfarfod mis Mawrth – Cafwyd noson arbennig o ddiddorol a chyffrous yng nghwmni Mr John Huws o Gaernarfon – gynt o'r Waunfawr – yn sôn am hen straeon ac ofergaelion.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Irene Roberts a diolchwyd gan Mrs Gweneirys Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Olwen Owen ac fe'i henillwyd gan Mrs Annie Roberts.

Manteisr ar y cyfle i ddiolch yn fawr i'r aelodau a gyfrannodd at Fair Wanwyn Merched y Wawr Arfon yng Nghaernarfon ar Ebrill 3 heb anghofio Mr Lleufer Pritchard a Mr John Ellis. Gwnaeth stondin Waunfawr elw o £58.

Taer erfynnir am bresenoldeb yr aelodau yng nghyfarfod mis Mai pryd y byddwn yn dewis swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf a hefyd yn trafod trip mis Mehefin.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod fis Ebrill o'r

Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau Ebrill 1.

Croesawodd Mrs C.A. Jones y llywydd, Mrs Watkins o Ystradgynlais a Mrs B. Roberts, Rhos Goch, Waunfawr fel ymwelwyr i'r cyfarfod a chroesawodd Mrs Bet Hughes yn ôl ar ôl ei hanhwylder. Cafwyd sgwrs ddiddorol gyda sleidiau gan y gŵr gwadd, Mr Gwynfor Williams, ar ei waith gyda Thim Achub Llanberis. Diolchodd Mrs Idris Jones iddo ar ran y Sefydliad.

Rhoddodd Mrs Morgan Jones y blodau ar fwrdd y llywydd, ac enillodd Mrs Peggy Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Nesfield. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos lau Mai 6 pan fydd y Trefnydd Gwirfoddol yn trafod penderfyniadau y Cyfarfod Blynnyddol.

DIOLCH – Dymuna Marian, Griff a Leslie ddiolch yn gynnes i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu mam Ellen Jones, 12 Dôl Erddi. Diolch yn arbennig am y rhoddion ariannol (£175) tuag at Adran yr Arennau, Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

YR YSGOL – Dydd ola'r tymor cafwyd Gwasanaeth arbennig y Pasg. Rhoddwyd anerchiad i'r plant gan y Ficer, y Parch Trefor Jones ac yr oedd y Dr R.S. Williams, Cadeirydd y Rheolwyr yn bresennol.

Ymddol – Ar ôl gwasnaethu am naw mlynedd ar hugain yng nghegin yr ysgol y mae Mrs Catherine Bracegirdle wedi ymddol. Mewn cyfarfod yn yr ysgol brynhaun ola'r tymor diolchwyd yn gynnes iawn iddi am ei gwasanaeth hir a dymunwyd yn dda iddi i'r dyfodol gan Gadeirydd y Rheolwyr, Dr R.S. Williams a chan y prifathro Mr Leslie Jones. Trosglwyddwyd siec o £50 iddi gan Dr Williams ar ran staff y gegin. Rhoddwyd hefyd dusw o flodau iddi gan Bethan Wyn ar ran y plant.

Gwerthu Llyfrau Cymraeg – Mae plant hynaf yr ysgol yn cymryd rhan eto eleni yn yr Ymgyrch Lyfrau. Gobeithio y rhowch gefnogaeth parod i'r plant.

Ymwelydd o Tasmania – Un mlynedd ar ddeg yn ôl ymfudodd Helen Payne a'i theulu o Bryn Gloch, Betws Garmon i Dasmania, Awstralia. Trwy'r cyfnod yma cadwodd gysylltiad â'r ysgol trwy lythyru â'r prifathro. Yn ystod wythnos olaf y tymor ymwelodd â'r ysgol tra ar ei gwyliau yn y wlad hon.

EISTEDDFOD – Cynhaliwyd Cyfarfod Cystadleuol Plant Capel Bethel M.C. Waunfawr a'r Gobeithlu nos Wener Ebrill 2. Y beirniaid oedd Mrs Nia Jones, Mr Ken Hughes, Mrs Gweneirus Jones, Mrs Gwenlli Williams. Y cyfeilydd oedd Miss Eirlys Jones. Dyma'r canlyniadau:

CANU – Dan 5: 1. Delyth Jones a Heddu Gwynedd; 2. Ceirion Williams; 3. Llio Mair Rhisiart; 4. Gerallt Jones, Llion Williams, Gavin Owen a Huw Gwilym. 5-7: 1. Meilir Gwynedd; 2. Rhodri Siôn ac Elin Gwilym; 3. Alaw Jones; 4. Annwen Jones a Ffilyr Llywelen. 7-9: 1. Telor Iwan; 2. Ella Jones; 3. Gareth Jones; 4. Osian Gwynedd. 9-11: Ellyw Iwan; 2. Sandra Jones; 3. Wayne Owen. 11-13: 1. Siân Rowlands. **ADRODD** – Dan 5: 1. Delyth Jones; 2. Heddu Gwynedd; 3. Gerallt Jones, Ceirion Williams, Llion Williams, Llio M. Rhisiart, Huw Gwilym a Gavin Owen. 5-7: 1. Elin Gwilym; 2. Meilir Gwynedd; 3. Alaw Jones ac Annwen Jones; 4. Ffilyr Llywelen; 7-9: 1. Ella Jones; 2. Gwennan Jones; 3. Osian Gwynedd; 4. Niel Owen a Gareth Jones. 9-11: 1. Nan W. Jones; 2. Sandra Jones ac Ellyw Iwan; 3. Helen Hughes. 11-13: 1. Adrian Owen. **PARTI UNSAIN** – Dan 12: 1. Parti Genethod; 2. Parti Bechgyn; 3. Parti Bach. **CANU UNRHYW OFFERYN CHWYTH** – Dan 12: 1. Wayne Owen; 2. Helen Hughes; 3. Karen Roberts. 12-16: 1. Huw Ynyr Jones. **DEUAWD** Dan 14 – 1. Sandra ac Ella Jones; 2. Sandra Jones a Siân Rowlands; 3. Siân Ll. Jones a Karen Roberts. **CANU PIANO** – Dan 14: Dosbarth

Cyntaf: 1. Osian Gwynedd; 2. Nan W. Jones; 3. Gwennan Jones; Ail Ddosbarth: 1. Huw Y. Jones; 2. Ellyw Iwan; 3. Nia Ll. Jones a Karen Roberts. **CÔR ADRODD** – Dan 12: 1. Parti Nan. **ARHOLIAD YSGRYTHUROL** – Dan 9: 1. Gwennan Jones. 9-11: Wayne Owen. 11-14: Adrian Owen. **YSGRIF** Dan 9: 1. Gwennan Jones; 2. Osian Gwynedd; 3. Ella Jones a Nia Ll. Jones. 9-12: 1. Helen Hughes; 2. Ellyw Iwan, Nan W. Jones a Sandra Jones; 3. Tina Parry. 12-16: 1. Gareth Griffith; 2. Rhian Williams. **ARLUNIO** dan 6: 1. Meilir Gwynedd; 2. Annwen Jones; 3. Ceryl Davies, Ceirion Williams, Eilir Jones, Delyth Williams. 6-8: 1. Osian Gwynedd; 2. Rhodri Siôn; 3. Diane Davies. 8-10: 1. Rhys Siôn; 2. Ella Jones. 10-12: 1. Adrian Owen; 2. Helen Hughes a Wayne Owen.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am yr holl waith a wnaethpwyd tuag

at wneud y cyfarfod yma llwyddiant.

CROESO'N ÔL o Awstralia i Michael Wyn Jones, Benallt a Michael Hanlon, Bryn Eirion ar ôl 9 wythnos yno yn gweithio. Hefyd mae Miss Nia Pritchard, Min-y-Grug a Mrs Mary Vaughan Jones wedi dychwelyd ar ôl eu gwyliau yn Awstralia.

YN YR YSBYTY – Deallwn fod Mr R. Roberts, 9 Bryn Golau yn yr Ysbyty yn Lerpwl. Dymunwn wellhad buan iddo.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Betty Wyn Hughes a'r teulu, Plas Bodhyfryd ar golli tad Mrs Hughes.

O YSGOL Y PENTREF 1952



Llyn y babanod wrth eu gwaith. Yn y cefn mae eu hathrawes Mrs Williams, Talysarn. Faint o'r wynebau sy'n gyfarwydd i chwi? Diolch i am anfon y llun inni.

O LAW I LAW

Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Islwyn L. Jones, Llanrug am gael benthyc casgliad sylweddol o lythyrau perthnasol i T. Rowland Hughes a dderbyniodd oddi wrth Mr Edward Rees, Porthaethwy, cofiannydd y bardd-lenor. Bu Mr Jones yn casglu defnyddiau ynglŷn â T. Rowland Hughes ers deng mlynedd bellach.

Gohebiaeth yw'r defnyddiau 'diweddaraf' yma – llythyrau, y rhan fwyaf ohonynt mewn llaw ysgrifen wreiddiol, i ac oddi wrth T. Rowland Hughes, wedi eu hysgrifennu rhwng 1924 a 1946. Nid yw'n bosib gwneud cyfiawnder â'r holl gasgliad o fewn y gofod y gellir ei ganiatáu yn yr Eco. Yn wir, buasai angen rhifyn cyfan i gyhoeddi yr holl ohebiaeth, ac i esbonio'r cyd-gyswllt. Digon yma yw rhoi crynodeb o'r defnydd a ddylai, maes o law, gael ei arddangos yn gyhoeddus yn Angorfa.

1. Mae deunaw o lythyrau rhwng TRH a Gwasg Gomer ynglŷn â chyhoeddi 'Yr Ogof' yn sôn am 'William Jones', yn trafod nifer copïau, arian a nifer o fanylion eraill.

2. Llythyr oddi wrth J.O. Williams, Bethesda, un o gyfeillion mawr TRH

yn trafod darlledu peth o waith R. Williams Parry.

3. Llythyr diddorol iawn oddi wrth R. Williams Parry, 1af Gorffennaf 1938 – yn crybwyll ymysg pethau eraill ei soned enwog (erbyn hyn) i'r Llwynog.

4. Cerdyn post oddi wrth T.H. Parry-Williams.

5. Llythyr oddi wrth y Dr. R.T. Jenkins, 3 Chwefror 1924, ynglŷn â pheth o waith cyntaf TRH ar y radio.

6. Llythyr oddi wrth E. Tegla Davies, 2 Gorffennaf 1936.

7. Llythyr oddi wrth J.T. Jones (John Eilian) o Ceylon. Roedd yn newyddiadurwr ar 'The Times of Ceylon' yn Colombo ar y pryd.

8. Nifer o lythyrau oddi wrth T. Gwynn Jones 1933-40 yn trafod Daniel Owen (sgript ganddo), Dic Tryfan ac yn cynnwys ei syniadau ar lawer pwynt llenyddol.

9. Llythyr oddi wrth Meuryn 2 Gorffennaf 1932 ynglŷn â Chymdeithas Dafydd ap Gwilym.

10. Cyfres o lythyrau oddi wrth Geraint Goodwin a'i briod.

11. Copi o gais TRH am y swydd o brifathro Ysgol Brynrefail 1933 ynghyd ag amryw o dystlythyrau iddo.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

RHAGLENNI HTV CYMRU AR GYFER S4C

Mae HTV Cymru eisau cyflenwi naw awr yr wythnos o raglenni ar gyfer y Bedwaredd Sianel newydd yng Nghymru (S4C) cyn gynted ag sy'n bosib. Bydd y rhaglenni hyn yn cynnwys trawsdoriad eang megis rhaglenni materion cyfoes, rhaglenni ar gyfer y plant, cyfresi dogfen, amaethyddiaeth a moduro, cyfresi crefyddol, cwisiau, adloniant ysgafn, chwaraeon, y prif wyliau cenedlaethol, cerddoriaeth a rhaglenni dogfen ar anturio.

MATERION CYFOES

Bydd HTV Cymru yn paratoi tair rhaglen hanner awr yr un bob wythnos ar gyfer S4C. Bydd un ohonynt ar ffilm ac yn dod o bob rhan o'r byd yn ogystal â rhannau eraill o Brydain. Yna, ceir rhaglen arall a fydd yn cyfuno eitemau o'r stiwdio ac ar ffilm ac yn rhoi adroddiad ar eitemau o ddiddordeb o Gymru a gweddill Prydain. Rhaglen fyw o'r stiwdio fydd y trydydd a bydd yn edrych ar faterion cyfoes, o bosib o flaen cynulleidfa.

CYFRES DDRAWA BOBLOGAIDD

Mae cyfres ddrama boblogaidd a seiliwyd ar brofiadau pobl ifanc mewn tref glan-môr yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Bydd wynebau a sefyllfaoedd hollol newydd a bydd dychymyg a dawn yn y cyflwyno.

RHAGLENNI PLANT

Bydd llwyddiant HTV Cymru ym maes cynhyrchu rhaglenni poblogaidd ar gyfer plant yn parhau. Ddwy flynedd yn ôl ymatebodd HTV i gais i gynyddu nifer rhaglenni plant, ond yn anffodus darlledwyd nifer o'r rhaglenni hyn ar amserau pan na allai rhan helaeth o'r gwylwyr eu gweld a'u mwynhau. Oherwydd hyn bydd rhaglen cerddoriaeth bop a'r gyfres gomedi ysgafn 'Gwesty Gwirion' yn cael eu dangos yn hwyrach, tua 7.30 p.m., fel y gall y teulu wyllo.

CYFRESI DOGFEN A RHAGLENNI 'ARBENNIG'

Bydd cyfresi dogfen rheolaidd a rhaglenni arbennig o ddiddordeb cyffredinol o bob rhan o'r byd yn cael eu cynhyrchu gan Gwyn Erfyl.

ADLONIAINT YSGAFN

Mae gan rai o sêr adnabyddus Cymru dalentau eraill nad ydynt mor adnabyddus. Fel enghraifft mae rhai o'n hactorion gorau yn gantorion da a rhai o'n cantorion yn actorion da. Bydd cyfleiddynt gael hwyl a diddori'r gynulleidfa mewn cyfres newydd.

Fe'u gwahoddir i lunio rhaglen eu hunain gyda chymorth un grŵp neu westai arall o'u dewis.

FFILMIO'R AMHOSIBL

Bydd y dringwr byd enwog o Gymro Eric Jones yn chwarae'r

brif ran mewn cyfres o raglenni dogfen ar anturio a ffilmwyd ledled y byd. Bydd fersiynau arbennig newydd o'r rhaglenni dogfen, gan gynnwys hanes cyrraedd copa Everest heb ocsigen, yn cael eu dangos gyda sylwebaeth yn yr iaith Gymraeg.

PRIF WYLIAU YNG NGHYMRU

Bydd rhaglenni ar y prif wyliau yng Nghymru megis yr Eisteddfodau Cenedlaethol a'r Sioe Amaethyddol yn parhau i gael eu cynhyrchu gan HTV Cymru yn yr iaith Gymraeg.

TELEDU ALLANOL

Mae HTV yn buddsoddi bron i Filiwn o bunnau mewn uned teledu allanol i wasanaethu Cymru gyfan - yr ardaloedd gwledig yn ogystal â'r rhai diwydiannol.

CHWARAEON

Bydd rhaglen gylchgrawn ar chwaraeon yn cael ei darlledu yn rheolaidd a bydd yn cynnwys eitemau o ddiddordeb cyffredinol yn ogystal â gemau.

AMAETHYDDIAETH

Bydd rhaglenni rheolaidd ar amaethyddiaeth yn dod o Ogledd a De Cymru.

MODURO

Bydd moduro ac eitemau o ddiddordeb i fodurwyr yn cael eu darlledu yn rheolaidd.

CWISIAU

Bydd HTV yn cynhyrchu cyfres gwis bob wythnos ar gyfer S4C, ac mae'n arbrofi eisoes gyda nifer o gwisiau sydd wedi eu seilio ar rai Americanaidd.

ELINOR JONES

Bydd cyflwynydd rheolaidd y rhaglen newyddion 'Y Dydd', ac un o'r cyflwynwyr rhaglenni teledu gorau yn yr iaith Gymraeg, Elinor Jones, yn cyflwyno ei chyfres ei hun ar S4C.

ADOLYGU RHAGLENNI TELEDU

Bydd holl raglenni teledu yn yr iaith Gymraeg a ddangosir ar S4C yn cael eu hadolygu mewn rhaglen gyson.

CERDDORIAETH

Yn ogystal â'r rhaglen bop bydd cyfres o gerddoriaeth gwerin a rhai rhaglenni ar gerddoriaeth traddodiadol.

CREFYDD

Bydd rhaglenni crefyddol yn cynnwys yr holl enwadau. Bydd nifer ohonynt yn cynnwys cerddoriaeth a chanu ac yn cynnig cysur i'r gwyliwr.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CYMDEITHAS BYSGOTA SEIONT GWYRFAI A LLYFNI

Erbyn hyn mae'r tymor pysgota bron iawn yn dri mis oed, ac mae Aelodau Cymdeithas Seiont, Gwyrfai a Llyfni, wedi bod yn brysur yn tacluso a thwtio rhannau o'r dair afon, ac wrth gwrs, mae llawer o ddŵr newydd i'r aelodau ei ddefnyddio yn y misoedd sydd o'n blaen, a posib iawn mai'r pwysicaf o'r dyfroedd hyn yw ar yr Afon Seiont yng Nglan Gwna, Caernarfon. Rhaid diolch i bawb a wnaeth hyn yn bosib, sef perchennog y pysgota, Mr John Roberts, perchennogion presennol Gwersyllt Glan Gwna a hefyd Swyddogion y Gymdeithas.

Ebrill 15, rhoddwyd nifer da o frithyll yn y dair afon yn ogystal â Llyn y Dywarchen, yn eu mysg, 'roedd nifer o bysgod o ddau i dri phwys. Oes rhywun wedi dal un o'r rhain eto tybed? Beth bynnag am hynny, maent yna i roi rhywfaint o gyffro hyd y cyrhaeddith yr Eog a'r Sewin cyntaf tua diwedd Mehefin i ddechrau Gorffennaf.

Peth braf yw cael dweud fod nifer

o aelodau o dan un ar bymtheg yn cynyddu bob tymor, y rhain yw gwaed y dyfodol i warchod ac i wneud yn siŵr y bydd pysgota rhesymol ar gael i'w plant hwy, a thra ein bod ar y pwynt o warchod, mae llawer o arwyddion newydd wedi eu gosod, a da chwi os gwelwch rhywun yn amharu a'r rhain, dywedwch wrth yr Heddlu neu unrhyw Aelod o'r Pwyllgor.

Wrth edrych o amgylch mae'n amlwg mai'r Gymdeithas Leol yw un o'r rhai hynaf a'r fwyaf trwy Gymru ac mae'n hen bryd cael bathodyn ein hunain, felly beth am yrru eich syniadau am lun i'w roi ar fathodyn, i gael ei ddefnyddio ar 'Sweaters' a 'ties' y Gymdeithas. Bydd gwobr o £5 i'r buddugol. Os am roi cynnig, gwnewch y darlun mewn dim mwy na dau liw a'i yrru i'r Ysgrifennydd, yn 11, Ystad Eryri, Bethel, Caernarfon, Gwynedd cyn Gorffennaf 1af, pan fydd y Pwyllgor yn dewis y gorau. Beth am y plant ysgol, dywedwch wrth eich Athro Arlunio, a rhoi cais yn enw'r Ysgol neu'r dosbarth.

H.P. Hughes
Ysgrifennydd

FFILMIO YN LLANRUG



Mae'r prysurdeb o baratoi deunydd ar gyfer S4C wedi cyrraedd Llanrug. Mae cwmni Alan Clayton o Gaerdydd wrthi'n ffilmio mewn tŷ gwag ar stad o dai preifat yn y pentref. "Aelwyd Gartrefol" gan Michael Povey, sydd hefyd yn actio yn y ddrama, sy'n cael ei chynhyrchu. Yr actorion eraill yw Eluned Jones, Elli Haf, Richard Clay Jones a Gwyn Parry. Digwydd y stori yn ardal Caernarfon. Bydd y cwmni yn ffilmio ym Mhenygroes a Thal-y-sarn hefyd.

Mae ganddynt ddau gynhyrchiad arall ar y gweill yn ystod y flwyddyn hon - un wedi'i seilio ar ddigwyddiadau "operation tân" yr heddlu ddwy flynedd yn ôl. Addasiad Eiga Lewis Roberts o'i nofel ei hun "Mis o Fehefin" yw'r llall.

Bistro 45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

LLANBERIS

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau, Eglwys Nant Padarn a Sant Peris Ebrill 6 dan lywyddiaeth y Canon Alun Jones. Mwynhawyd araith ddifyr iawn gan Mr John Smith, Cyn-brifathro o Ynys Môn ar ei daith i Balestina. Dangosodd ffilmiau ardderchog o'r gwahanol leoedd a welodd. Diolchwyd iddo gan Miss Catherine Gillespie, gyda Mrs Kathleen Williams yn eilio'r diolchiadau. Rhoddwyd y te gan Mrs T.L. Evans, Mrs Pughe, Miss Hedd Wyn Williams a Mrs Denness Hughes.

Y CLWB METHEDIG – Nos Iau, Ebrill 1af cynhaliwyd Noson Goffi yn y Ganolfan, wedi ei threfnu gan aelodau Llanberis o'r Clwb. Agorwyd y noson yn swyddogol gan Mrs Eirwen Bibby, y Swyddog Cymdeithasol. Gwnaed £196 o elw – a mawr yw diolch y swyddogion i bawb o'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

YN GWELLA – Da iawn deall fod y rhai a fu'n cwyno yn o arw ers amser, – rhai yn yr ysbyty a rhai yn eu cartrefi – yn gwella yn dda, er yn araf.

Mae Mrs Vera Griffith, Llwyn y Piod wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol.

Ond, yn yr ysbyty o hyd y mae Mrs Jennie Maud Jones, Maes Padarn, Mrs Jonnah Jones, 17 Stryd Goodman (ar ôl iddi dorri ei choes wrth ddisgyn yn ei chartref) a Mrs Glyn Percy Williams, Maes Padarn. Dychwelodd Mrs M. Roberts, Maes Padarn gartref – ar ôl ysbaid yn gwella gyda'i merch Rhiannon. Dychwelodd Mrs Jean Roberts, Maes Padarn gartref o Ysbyty Caerdydd, a mae wdi aildechrau ar ei gwaith yng Nglyn Rhonwy.

Cwyno yn arw mae Georgie Parry, Stryd Turner, ond mae gofal tyner amdano gan ei briod, a'i feibion a'u gwragedd. Dymunir gwellhad buan iddo.

LLONGYFARCHIADAU – i Delyth merch Mr a Mrs Bert Parry, Llys Orwig, Stryd Newton ar ei llwyddiant gyda'r piano – yn ennill Gradd 7. Hefyd Lisa Rudkin, Gerafon hithau wedi bod yn llwyddiannus gyda'r piano yn Gradd III. Hefyd ei chwaer Hannah – yn llwyddiannus gyda Gradd III. Nid y piano yn unig yw diddordeb Lisa. Mae wedi llwyddo i ennill Gradd III gydag anrhydedd gyda'r fflwt. Da iawn wir.

CYFARFOD PLANT – Trefnwyd Cyfarfod Plant yn Nant Padarn yn ystod Sul y Pasg. Daeth lluo o blant ynghyd o'r holl eglwys – a gwir fwynhawyd y cyfraniad a gafwyd yr oll o'r plant bach – Dylan Parry, Julie Baylis, Fiona Prydderch, Delyth Lloyd Williams, Daryl Griffiths, Helen Gartside, Nicola Bayliss, Geraint Thomas, Christine Pitts, Janette Sellers, Jackie Sellers, Einir Thomas, Nia Thomas, Anna Roberts, David Williams, Bryn Roberts. Cyfeiliwyd gan Carys Jones a mwynhawyd adroddiad cymwys iawn gan Bethan Jones. Rhoddwyd annerchiad ddifyr iawn i'r plant gan Mrs Meira Bryn Hughes. Diolchwyd i'r cyfan gan Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan.

CYMUDEB Y PASG – Yn y Ganolfan Ddydd Gwener y Groglith cynhaliwyd gwasanaeth hwn a threfnwyd cymundeb gan y gweinidogion Hugh John Hughes, Gwynfor Williams a Marcus Robinson.

TAID A NAIN – Llongyfarchiadau i Beryl ac Owen Lewis, Cilan ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd baban bychan i Mona a Dylan, Victoria Teras, y plentyn cyntaf iddynt.

Hefyd Mrs Alun Williams, Eirianfa, hithau yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan – Alun – i John

ei mab a'i briod Owen.

DATHLU PEN-BLWYDD – Yn ystod y mis bu Eleri, unig ferch Mr a Mrs Dewi Ellis, Teras y Cae, a Ruth, merch hynaf Mr a Mrs Lennon, Plas Tirion yn dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed. Trefnwyd disco gan y ddau deulu yng Ngwesty'r Fictoria – a chafwyd noson ddifyr iawn gan bawb.

CYMANFA Dosbarth Cwm-y-glo (yr Annibynwyr) – Yng Nghapel Jerusalem ddydd Sul, Ebrill 25 cynhaliwyd Cymanfa Dosbarth Cwm-y-glo gyda Mr John Jones, Deiniolen yn arwain y canu a Mr Robert Lloyd wrth yr organ.

Yn y prynhawn cafwyd cyfarfod i'r plant a'r thema oedd 'Pwy yw fy ngymydog?' Cymerwyd rhan gan blant Ysgolion Sul Jerusalem, Nant Padarn, Ebenezer, Bosra. Rhoddwyd yr annerchiad i'r plant.

MARWOLAETHAU –

Ellyn Bryniog Jones – Mawrth 26 yn yr ysbyty ym Mangor bu farw Ellyn Bryniog Jones, Stryd y Ffynnon. Roedd yn 59 oed ac wedi dioddef afiechyd blin am flynyddoedd. Bu ei briod yn hynod o ffyddlon iddo ac estynnir pob cydymdeimlad iddi hi a'r plant yn eu colled. Bu gwasanaeth angladdol yng Nghapel Preswylfa gyda'r Parch Marcus Robinson, yn gwasanaethu, ac yn y fynwent yn Nant Peris.

Owen Thomas – Mawrth 27, bu farw Owen Thomas, Stryd Turner yn yr ysbyty ym Mangor. Roedd yn 76 oed ac wedi dioddef yn ddistaw a dirwgnach am flynyddoedd lawer. Cymeriad hynod o dawel a charedig ydoedd, yn fawr ei barch gan yr ardal. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn y tŷ gyda'r Parchn Marcus Robinson, Capel Coch a Herbert Thomas, Llannor yn gwasanaethu. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'r weddw, hefyd ei chwaer a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Catherine A. Gillespie – Brawychwyd yr ardal yn cynnar nos Lun, Ebrill 19, pan ganfuwyd tân yng nghartref Caethine Ann Gillespie, Bro Alwyn. Bu aelodau dwy neu dair Brigaad Dàn yn gweithio'n galed iawn i ddiffodd y tân ac i ddod o hyd i Catherine yn y tŷ. Roedd y tân mor erchyll, a'r mwg tawchus yn arllwys o bob congl i'r tŷ – nid oedd modd achub eu bywyd. Canfuwyd ei chorff ar dop y grisiau. Mae'r digwyddiad wedi creu arswyd drwy'r ardal.

Wedi gadael y Brifysgol ym Mangor bu'n dysgu am beth amser yng Nghaernarfon ac yna penodwyd hi yn brifathrawes Ysgol Llanddeiniolen, a gorffennodd ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Ar hyd ei bywyd bu'n weithgar gyda phob achos da yn yr ardal. Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth i Eglwys Sant Padarn, ymhob adran o waith yr eglwys. Bu'n athrawes yr Ysgol Sul am flynyddoedd, yn weithgar gyda'r Eisteddfod, Undeb y Mamau, a chynrychiolodd yr eglwys ar bwyllgorau drwy Gymru.

Yn ystod y rhyfel ddiwethaf bu'n gwasanaethu'r wirfoddol yn yr Y.M.C.A. yng Nglandŵr – a chyda'r St. John Ambiwllans, a chadwodd ei diddordeb yn y gwaith hyd y diwedd. Roedd yn aelod o Bwyllgor y Ganolfan er y dechreuad, yn aelod o'r Blaid Lafur, ar bwyllgor y Carnifal, ac yn barod i gynorthwyo gyda Phwyllgor yr Henoed bob blwyddyn. Pan ddechreuwyd dosbarthu y Prydau Parod i'r pensiynwyr rai misoedd yn ôl, Catherine Gillespie oedd yr un o'r rhai cyntaf o'r ardalwyr i gynnig ei gwasanaeth i'r ymdrech. Yn wir gellir dweud amdani – "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth." Cymeriad hynod o garedig ydoedd –

yn gymwynasgar a theimladwy. Bydd colled i'r ardal yn gyffredinol yn ei marwolaeth. Cynhaliwyd y gwasanaeth anghladdol yn Eglwys Sant Padarn ddydd Sadwrn gyda'r Parch Ganon Alun Jones yn gwasanaethu.

EISTEDDFOD Y PLANT – Nos Iau a nos Wener, 22 a 23 o Ebrill cynhaliwyd Eisteddfod Eglwys i'r Ardal yng Nghapel Gorphwysfa.

Llywyddwyd nos Iau gan y Parch Marcus Robinson a Mrs Meira Bryn Hughes – a nos Wener gan Mr John Hugh Hughes, prifathro Ysgol Dolbadarn a Mr Alwyn Owen, Stryd Siarlott. Y beirniad oedd Mr Garison Williams, Pencaenewydd a Mr Gwilym Hughes, Caernarfon. A'r cyfeilyddion, Mrs Lloyd a Mrs Ann Pritchard. Ceir rhestr o'r goreuon yn rhifyn mis nesaf o'r Eco.

ATHRAWON YSGOL DOLBADARN TUA 1917



Anfonwyd y llun yma o athrawon Ysgol Dolbadarn gan Miss Bessie Roberts, Stryd Turner. Tynnwyd yn y

flwyddyn 1917 neu 1918, blynyddoedd y Rhyfel Byd. Os gwnia ydych yn adnabod y cyfryw?

PLANT BACH LWCUS



Tybed faint o blant bach bro'r Eco sydd wedi cael y cyfle i adnabod un o'u hen neiniau? Dyma i chi ddau blentyn bach ffodus sydd yn gallu dweud eu bod nhw'n adnabod dwy hen nain! Er bod y plant yn byw ym mhentref Bodffordd, Ynys Môn mae ganddynt gysylltiad agos â bro'r Eco gan fod un o'u hen neiniau yn byw yn Llanberis.

Y ddau blentyn bach yw Meilyr ac Elin Wyn, Tysilio, Bodffordd, plant bach Arfon a Nia Wyn. Yn y llun ar y chwith gwelwch bedair cenhedlaeth, sef Mrs J. Humphreys, 63 Maes Padarn, Llanberis; ei mab Mr Eric Humphreys;



Arfon Wyn, ei fab yntau a Meilyr Wyn, sef gor-wyr Mrs Humphreys. Tynnwyd y llun pan oedd Meilyr, sydd bellach yn 3 oed, yn fabi bach. Deallwn nad yw Mrs J. Humphreys yn dda iawn ar hyn o bryd. Hwyrach y bydd y llun ohoni hi a'i theulu yn gyfrwng i godi ei chalon.

Y bedair cenhedlaeth yn y llun arall yw Mrs Elen Rowlands, Rhosmeirch; Mrs Morfudd Edwards ei merch; Mrs Nia Wyn ei hwyres, ac Elin Wyn ei gor-wyres.

Dyna ichi blant lwcus! Dwy hen-nain a phedair o neiniau!

PEN-BLWYDD HAPUS – Dymuna'r teulu i gyd ben-blwydd hapus a phob bendith i ti Ruth ar dy ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Ebrill 29.

NEWYDDION YSGOL DOLBADARN

EISTEDDFODOL – Gwnaeth y plant waith canmoladwy iawn yn yr eisteddfodau eleni eto, er na lwyddodd neb i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwllheli.

Dyma'r canlyniadau: Eisteddfod Gylch: Canu dan 10: Trystan Thomas (3ydd); Canu dan 12: 1af, Nia Thomas. Cerdd Dant dan 12 oed: 2il, Sian E. Pritchard, 3ydd Lisa Jane Rudkin. Adrodd dan 12 oed, 3ydd, Ceri Lynne Parry. Parti Unsain, 2il, Parti Alice, Parti Cerdd Dant 1af Parti Hannah. Eisteddfod Sir: Canu dan 12, 2il, Nia Thomas. Parti Cerdd Dant, 2il, Parti Hannah.

Llongyfarchiadau i'r holl blant am

eu brwdfrydedd ac hefyd i'r rhai fu yn eu hyfforddi.

CHWARAEON – Yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd Cynradd Gwynedd llwyddodd tîm yr ysgol i ennill y rowndiau cyntaf i gynrychioli Rhanbarth De Arfon yn y gystadleuaeth. Ond colli fu hanes y tîm yn y rownd derfynol yn y Coleg Normal Bangor. Llongyfarchiadau i'r genod ac i Mrs Pierce am eu hyfforddi.

TÎM PÊL-DROED – Yn ddiweddar bu tîm o'r ysgol yn cystadlu mewn twrnament pump bob ochr i ysgolion dalgylchoedd Brynrefail, Caernarfon a Dyffryn Nantlle. Bu'r bechgyn yn eithaf llwyddiannus gan ennill un gêm, colli dwy, a dod yn gyfartal yn eu gêm olaf. Colli wnaeth y gîm o 6-0 yn erbyn Ysgol yr Hendre, ond mae'r hogiau'n benderfynol o wneud yn well pan chwaraeir yn erbyn yr Hendre eto yn y dyfodol agos.

Parhad ar dud.9

LLANBERIS (parhad)

Llongyfarchiadau eto i'r hogiau, ac i Mr Iwan Roberts am eu hyfforddi.

DIDDORI POBL - Cafwyd gwahoddiad gan Glwb yr Henoed i blant o'r ysgol fynd i Westy'r Fictoria i'w diddori yn ystod cinio blyneddol y Clwb. Cafwyd pnawn pleserus iawn yng nghwmni cant a hanner o'r aelodau. Mrs E. Pierce fu'n hyfforddi'r canu, Mr Iwan Roberts a Miss Eleri de Brun gyda'r adrodd, ac arweiniwyd y cyngerdd gan Mr J.H. Hughes, y prifathro. Bu plant o'r ysgol hefyd yn diddori aelodau o Glwb Methedig Eryri yn ystod y mis. Y tro hwn arweiniwyd y cyngerdd gan Mr Iwan Roberts, gyda Mrs Pierce wrth y piano.

WEDI GWELLA - Balch iawn ydym o weld Mrs E. Arfon Owen yn ôl yn yr Ysgol wedi cyfnod o waeledd. Mrs Owen yw Gweinyddes Feithrin yn Adran y Babanod.

Da yw deall hefyd fod Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol yn dal i wella'n foddhaol.

YR YMGRYCH LYFRAU - Y mae'r Ymgyrch Lyfrau eleni eto wedi cychwyn dan ofal Mr Trebor Evans. Caed hwyll dda tros ben y llynedd pryd y gwerthwyd gwerth dros £1,200 o lyfrau Cymraeg. A yw hi'n bosib cyrraedd y swm hwn eleni, tybed? Dowch chwi ddarllenwyr brwd Llanbêr a'r Nant.

LLWYDDIANT CERDDOROL - Bu Rhiannon Pritchard, Madryn, 25 Stryd Newton yn llwyddiannus yn ddiweddar gydag arholiad piano Gradd 6 dan nawdd Coleg Cerddorol Brenhinol Llundain. Llwyddodd Rhiannon i ennill Tystysgrif Teilyngdod.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Lisa Jane Rudkin ar lwyddo yn ei arholiad canu'r ffliwt Gradd 3, gydag anrhydedd. Da iawn y ddwy.

BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd arddangosfa wych o goginio amrywiol gan Mrs Pat Jones, Cae Coch. Rhoddwyd y te gan Jinnie Roberts a Mair Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i enillwyd gan Helen Jones.

CWLB Y MAMAU - Eto, yn Nhŷ Glas yng nghyfarfod y mis, cafwyd noson ddifyr yn peintio wyau at y Pasg dan hyfforddiant Liz Thomas. Rhoddwyd y te gan Jenny Hughes a Jinnie Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jackie Jones ac fe'i enillwyd gan Shirley Roberts.

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyd mis Mawrth - Mawrth 5ed: 1. Islwyn Jones, 2. Jackie Jones, 3. Dafydd Ellis. Mawrth 12: 1. Betty Owen (Tros yr Afon), 2. Eifion Roberts, 3. Liz Thomas. Mawrth 19: 1. Elinor Bryn


Rhydd, 2. Mike Collins, 3. Dafydd Price. Mawrth 26: 1. Phyllis Jones, 2. H.T Jones, 3. O.T. Williams.

DIOLCH - Dymuna Mrs Gwyneth Evans, Tŷ'n Buarth ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau a blodau tra bu'n yr ysbyty.

YN YR YSBYTY - Deallwn fod Mr Meredydd Foulkes, Bryn Derw yn glaf yn adran yr henoed yn ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dymunwn adferiad buan iddo. Brydiwch adre Mr Foulkes!

I'R UNOL DALEITHIAU - Mae Mr a Mrs O.J. Williams, Bryn Melyn wedi hedfan unwaith eto i'r wlad fawr i aros gyda'u mab Bryn. Dymunwn wyliau braf iddynt ac edrychwn ymlaen am newyddion pan ddônt adref.

EGLWYS SANT PADARN - YN LLUNDAIN



le, mae'r Eglwys a welir yn y llun yn Islington, Llundain. Adeiladwyd yr Eglwys gan grŵp o Gymry Llundain ond roedd rhaid ei chau nifer o flynyddoedd yn ôl. Prynydd yr adeilad yn ddiweddar gan 300 o ddilynwyr yr Archesgob Lefebvre - y "rebel" Catholig sydd yn herio awdurdod y Pab trwy fynnu cynnal yr offeren yn Lladin. Newidiwyd enw'r Eglwys i Eglwys Sant Joseff a Sant Padarn. Yn y llun gwelir yr offeiriad, y Tad Edward Black a rhai o'i gynulleidfa o 200 y tu allan i'r Eglwys ar ôl yr Offeren gyntaf.

Tybed a oes rhai ohonoch yn gwybod rhywbeth ynglŷn â sefydlu un o eglwysi Sant lleol yn Llundain? Croeso i chwi gysylltu â ni yn yr 'Eco'.

DAW'R GWANWYN YN ÔL

gan Leslie Larsen

Daeth y wenoliaid yn ôl atom yn weddol brydlon eleni. Yr oedd y ddiweddar Miss Owen, Rhos Ddu yn dweud mai dyddiad arferol i'r wnnol ddychwelyd i Lanrug oedd Ebrill 17 neu 18. Gwelais i y rhai cyntaf yn gwibio am bryfetach uwchben yr afon ym Mhontrhythallt Ebrill 22; yn ddiau bu rhai o ddarllenwyr yr 'Eco' wedi eu gweld yn gynt.

Bu'n rhaid i mi fynd ar y Carneddau i glywed y Gog yn galw am y tro cyntaf y gwanwyn hwn. Ebrill 24 yr oeddwn yn cerdded gyda chyfaill i mi ar y Carneddau o Aber i Ben yr Olau Wen ac i lawr i Lyn Ogwen ac yna gwelsom nifer o adar y gwanwyn. Y gog yn galw yn agos i gopa Carnedd Dafydd; gwenoliaid yn hedfan uwchben Carnedd Llywelyn; yno hefyd yr oedd Tinwen y Garreg, Gwas y Gog a Mwyalchen y mynydd wedi cyrraedd ac yn barod i nythu er gwaethaf olion eira yn dangos nad oedd y gaeaf wedi cilio'n llwyr.

PWYSIG!!

Neges i'r Gohebwy'r Pentrefi: A wnewch chi sylwi, os gwelwch yn dda, ein bod ni wedi newid y noson ar gyfer derbyn y newyddion o'r pentrefi o'r nos Fercher i'r NOS FAWRTH. Gweler y dyddiadau ar dudalen 2. Dyma'r drefn o hyn ymlaen. Mae hyn er mwyn hwyluso gwaith ein cyfeillion yng Ngwasg Gwynedd. Diolch yn fawr.

CEUNANT

CYDYMDEIMLWN fel ardal â Mrs Eluned Ellis-Owen a theulu'r diweddar Mr William Ellis-Owen, Bryn y Maen. Bydd teyrnged i Mr Ellis-Owen yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o'r 'Eco'.

YN SYDYN yn ei gartref bu farw Henry Thomas Jones, Tŷ Uchaf, Mawrth 27. Fel Harri Tŷ Ucha y cawsai ei adnabod yn annwyl iawn gan lawer yn y fro. Cafodd ei eni a'i fagu yn y Ceunant a bu'n gweithio am dros hanner canrif yn Chwael Dinorwig. Treuliodd ran helaeth o'i oes ar y graig a llethrau Cefn Du, ac er iddo weld cyfnodau anodd yn y ddeule, gydag anwyldeb y cofiai'r cyfan.

Braint oedd cael bod yn ei gwmni oherwydd ei bersonoliaeth ddihafal a'i ddawn arbennig i adrodd storïau. Cawsai bleser yn adrodd hanesion am y chwael a'i chymeriadau. Cofiai

adegau hapus a chythryblus y chwael, cofiai ei chymeriadau lliwgar ac athrylithgar hefyd.

Collodd Ceunant weithiwr caled a bugail da; collodd Jennie ŵr hawddgar a charedig; collodd Raymond daid hoffus; a chollodd bro 'Eco'r Wyddfa' gymeriad.

DIOLCH - Dymuna Mrs Jennie Jones, Tŷ Uchaf, Raymond a phawb o ddu'r diweddar Henry Thomas Jones ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad ar achlysur eu profedigaeth.

MAM-YNG-NGHYFRAITH

Hen gath a'i thafod llathen - heb eirida

Ond byrdwn o gynnen;
Ei phrif nod yw bod yn ben,
Darnia f'aelwyd - 'rhen filen.

Margaret Rees Williams

DAFYDD AR RAS



Dafydd Whiteside Thomas, y golygydd erthyglau, sy'n dal i redeg byth ers cyhoeddi'r rhifyn diwethaf o'r Eco! Daliodd ein ffotograffydd o'n rhuthro'n wyllt i fyny bwlch Llanberis gan fwmian rhywbeth! fod rhywrai byth a hefyd yn ei erlid. Cawsom gryn drafferth i'w berswadio i droi'n ôl o ben y bwlch i fro'r Eco.

NODWCH YCARNIFALAU
Mehafin 27-Gorff 3 - Wythnos Garnifal Bethel.
Gorffennaf 2-10 - Wythnos Garnifal Waunfawr.
Gorffennaf 11-17 - Wythnos Garnifal Llanberis.

LLOFFA

Cyfes boblogaidd iawn ar BBC Cymru rai blynyddoedd yn ôl oedd "Lloffa" - rhaglenni gyda phanel o arbenigwyr ar draddodiadau ac arferion gwerin yn trafod creiriau ac enwau etc. Yn awr mae bwriad i deledu cyfes arall ar yr un patrwm, yn sôn am enwau ffermydd a chaeau a phentrefi, ofergoelion, hynafiaethau, hen arferion a chrefftau a hen greiriau.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y pethau hyn, ac os hoffech chi ofyn cwestiwn i'r arbenigwyr yn y stiwdio, anfonwch air ar unwaith os gwelwch yn dda at Lloffa, BBC Cymru, Llandaf, Caerdydd.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .

Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652



STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

06190 – O CHWECH I NAW DEG!



Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
**DYFRIN
Y
DEWIN**

**CHWEDLAU MORLADRON YR YNYSOEDD
PELL**

Y GWRACHOD

Roedd unwaith dair gwrach. Gwrach Ddu, Gwrach Goch a Gwrach Wen. Roedd y Wrach Ddu a'r Wrach Goch yn byw mewn ogofâu ar Ynys y Gwrachod. Roedd y Wrach Wen yn byw ar graig o farmor gwyn yn y môr gerllaw'r ynys.

Un dydd roedd y wrach goch yn cynneu tân ar y tywod o'r tu allan i'w hogof. Lluchiodd ddarn o garreg ddu ar y tân a nyddu swynion. Galwodd ar Anghenfil y Môr, a'i orchymyn i chwilio am long a'i thynnu yn ôl i'r ynys.

Nofiodd Anghenfil y Môr i ffwrdd. Daeth ar draws llong, ac fe'i gwthiodd yn ôl i Ynys y Gwrachod. Ni allai'r morwyr wneud dim oherwydd roedd Anghenfil y Môr yn gryf iawn.

Pan ddaeth y llong at ymyl Ynys y Gwrachod, dechreuodd y Wrach ddu nyddu swynion.

**"Tonnau du y môr du
Dewch â'r llong a'i haur i mi
Tonnau du sy'n dryllio llongau
Taflwch y llong yn erbyn y creigiau."**

Yna, tywyllodd yr awyr a dechreuodd y tonnau a rhuo. Hyrddiwyd y llong yn erbyn y creigiau – a dyna'i diwedd. Rhwyfodd y morwyr i ffwrdd mewn cwch bychan ond bu'n rhaid gadael yr aur ar y llong.

Wedi i'r môr dawelu, aeth y Wrach Ddu a'r Wrach Goch ar fwrdd y llong a dwyn yr aur yn ôl i'w hogofâu.

Roedd y Wrach Wen wedi bod yn gwylio hyn i gyd oddi ar ei chraig, a phenderfynodd na châi hyn ddigwydd byth eto. Gwnaeth hithau dân, a thaflu carreg weni i'r tân. Wedi i'r tân losgi, gwnaeth chwiban hud

allan o'r garreg wen.

Yn ôl ar Ynys y Gwrachod roedd y Wrach Goch yn nyddu swynion eraill, ac yn anfon Anghenfil y Môr i chwilio am long arall.

Fel ag o'r blaen, pan ddaeth Anghenfil y Môr â'r llong yn ôl i Ynys y Gwrachod, dechreuodd y Wrach Ddu nyddu swynion. Tywyllodd yr awyr a dechreuodd y tonnau â rhuo.

Ond y tro hwn, roedd y Wrach Wen yn barod. Chwythodd ar ei chwiban hud a daeth gwynt cryf o'r awyr. Chwythodd y gwynt y llong oddi wrth Ynys y Gwrachod ac er i Anghenfil y Môr geisio ei rwystro, roedd y gwynt hud yn gryfach. Tawelodd y tonnau a goleuodd yr awyr.

Roedd y Wrach Wen yn dal i chwythu ar ei chwiban hud. Chwythodd y gwynt o amgylch y Wrach Goch, a'i chodi i'r awyr a'i chario ymhell dros y môr. Chwythodd hi mor bell fel na ddaeth byth yn ôl!

Rhedodd y Wrach Ddu i'w hogof i guddio, ond daeth y gwynt i mewn i'r ogof. Chwythodd hi allan o'r ogof, a'i chodi i'r awyr a'i chario ymhell dros y môr. Chwythodd hi mor bell fel na ddaeth byth yn ôl.

Wedi i'r gwrachod gael eu chwythu i ffwrdd cadwodd y Wrach Wen ei chwiban hud ac eisteddodd i lawr i fwynhau'r heulwen.

DYDDIADUR Y BLODAU

Chwiliwch am flodau gwyllt y gwanwyn, pan fo'r coed yn blaguro a digon o heulwen i alluogi'r blodau i flodeuo. Cawsom dywydd heulog iawn yn ystod y pythefnos diwethaf. Gwnewch siartiau fel y rhai isod i gofnodi gwahanol ddyddiau blodeuo y gwahanol flodau gwyllt. Yna, bydd yn bosibl cymharu'r tymor blodeuo yn ôl effeithiau'r tywydd mewn gwahanol flynyddoedd.

1982	Ma	Eb	Ma	Me
BRIALLU	✓	✓	✓	
CORN GLAS			✓	✓
MEFUS GWYLLT		✓	✓	✓


1983	Ma	Eb	Ma	Me
BRIALLU				
CORN GLAS				
MEFUS GWYLLT				

Ar ddalen arall o ddyddiadur blodau, gallwch wneud llun o'r blodyn. Cofnodwch *ble* roedd y blodyn yn tyfu; e.e. o dan y coed, ar ymyl coedwig, mewn llannerch heulog, ar lan y dŵr. Cofnodwch hefyd pa bryd y mae'r coed yn deilio neu'n blodeuo a sut dywydd yw hi ar y pryd.

Mae llyfr lloffion fel yr un ar y dde yn gymorth oherwydd gellir rhoi dalennau ychwanegol i mewn ynddo.



FFRWYTHAU A LLYSIAU AR GOLL



Dyma rai o ffrwythau a llysiau oedd ar werth mewn siop leol. Yn anffodus, roedd y siopwr wedi anghofio llythyren gyntaf a llythyren olaf eu henwau. Fedrwch chi enwi'r ffrwythau a'r llysiau?

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

SCIPIAU ARFON

**YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH**

**SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL**


Ffôn:

**Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329**

**Gyda'r Nos
Llanberis 872236**



LLUN I'W LIWIO




Dyma lun aderyn o'r enw TOUCAN. Mae'n byw yng nghanol Jyngl yr Amazon yn Ne America. Sylwch ar ei big cryf. Mae'n torri cnau Brasil efo'i big yna'n bwyta'r gneuen sydd tu mewn. Defnyddiwch y lliwiau canlynol am bob rhif sydd ar y llun:

1. Coch
2. Melyn
3. Glas
4. Brown tywyll
5. Gwyrdd tywyll
6. Brown golau
7. Gwyrdd golau

ADERYN O WERTH

Glywsoch chi am y dyn a groesodd golomen â chnocell y coed? Mae'n cario negeseuon ac yn cnocio ar y drws am ateb!

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

CYFRES NEWYDD 'CASGLU CERRIG'

Nid oes unrhyw un yn berffaith siŵr sut y ffurfiwyd y ddaear. Mae'n debyg iddi ddechrau fel pelen boeth iawn, ac iddi oeri'n raddol. Wrth oeri, ffurfiodd math o grystyn ar yr wyneb. Y crystyn hwn oedd y creigiau cyntaf. O dan y crystyn hwn credir fod hylif poeth. Mae'r crystyn hwn o greigiau wedi ei erydu i roi priddoedd, wedi oeri digon i ddŵr gasglu arno i roi moroedd a llynnoedd. Ffurfiwyd glaw o'r moroedd hyn a'i gario dros y tir i roi afonydd, a galluogi planhigion i dyfu, ac anifeiliaid a Dyn i fyw ar y tir.

Er bod peth gwybodaeth gennym am y rhan o'r ddaear sydd o dan y crystyn, eto'i gyd, nid yw Dyn wedi teithio mwy na milltir o dan wyneb y ddaear (teithiodd chwarter miliwn o filltiroedd i gyrraedd y lleuad). Dim ond 3,500 troedfedd yw'r pwll glo dyfnaf ym Mhrydain.

Y crystyn tenau o greigiau, cerrig a phridd sy'n rhoi'r holl wahanol fathau o gerrig sydd ar gael yn y byd heddiw, ac am rai o'r gwahanol gerrig hyn y byddwn yn sôn yn y gyfres hon.

Mae folcanoau yn profi fod hylif poeth o dan wyneb y ddaear. Pan fydd folcano yn echdorri, daw'r hylif poeth hwn i'r wyneb. Yr enw a roir arno yw LAFA. Mae'r lafa'n oeri'n raddol, ac mewn amser, yn caledu i roi carreg o wahanol grisialau a mineralau.

Mae pob carreg wedi ei gwneud o fineralau. Nid yw'n bosibl gweld y mineralau ym mhob carreg, ond ambell dro, maent yn eglur iawn, ac yn rhoi ffurf neu liw arbennig i'r garreg. Gallai carreg felly fod yn sylfaen i'ch casgliad chwi o gerrig.

Y Mis nesaf: Pa mor galed yw'r garreg?

Y TYWYDD

T	Th	M	N	O	R	G	U
N	I	Th	E	H	S	L	W
Y	L	S	T	Y	Y	A	E
W	W	E	L	G	N	W	R
R	G	N	E	U	I	W	D
O	E	F	M	T	W	Y	Y
C	N	Y	E	T	L	Ch	W
L	T	S	E	M	Y	T	L

CENLLYSG, GLAW, MELLTEN, CORWYNT, LLUWCH, HETH, LLWYDREW, TYMESTL, ENFYS, NIWL, GWLITH, TES. Mae'r llythrennau sy'n weddill yn ffurfio enw cymeriad adnabyddus yngŷn â'r tywydd.

MEDDYG O LANRUG Â CHYSYLLTIAD Â'R FALKLANDS!

MAE argyfwng y Falklands wedi ei drafod hyd at syrffed bron ar y teledu ac yn y wasg yn ystod y misoedd diwethaf. Mae datblygiadau modern mewn radio a theledu yn dod â'r newyddion am y gwahanol ddigwyddiadau yno i'n haelwyd o fewn ychydig oriau. Mor anhebyg oedd amgylchiadau dros 200 mlynedd yn ôl pan ymwelodd meddyg o Lanrug â'r Ynysoedd.

Ganed Humphrey Edwards yn y Tŷ Gwyn, Llanrug (Plas Gwyn heddiw) yn 1730, yn fab i Reithor y Plwyf. Ymunodd â'r Llynges yn 1757 ac erbyn 1759 roedd wedi ei dderbyn fel Meddyg Llong. Yn 1764 yr oedd yn Feddyg Llong y 'Tamar', un o ddwy long a anfonwyd gan y Llynges i archwilio glannau môr de'r Ariannin o de Chile, gan gynnwys Ynysoedd y Falklands. Roedd mordaith gynharach dan ofal Anson wedi gwneud arolwg byr o'r rhanbarthau hyn, ond roedd ar y Llynges angen mwy o wybodaeth ac archwiliad manwl, a dyna'r rheswm dros anfon y llongau hyn i'r ardal dan arweiniad Capten Byron.

Ym mis Ionawr 1765 glaniodd y llongau ar un o Ynysoedd y Falkland, a cheir cyfeiriad at Humphrey Edwards yn log y llong: "the Surgeon of the Tamar surrounded a piece of ground

with a fence of turf, and planted it with many esculent vegetables as a garden, for the benefit of those who might thereafter come to this place." Diddorol fyddai cael gwybod beth ddigwyddodd i'r ardd honno.

Ar un o fân ynysoedd Culfor Magellan, plannodd Humphrey Edwards ardd arall - y tro hwn i dyfu llysiau i arbed y morwyr rhag dioddef o'r "scurvy".

Ymdeolodd o'r Llynges yn dilyn y fordaith hon, ac aeth i fyw i Gaernarfon i gadw siop apothecari. Yno y bu farw yn 1788, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys y Plwyf, Llanrug. Mae ei garreg fedd i'w gweld hyd heddiw wrth dalcen yr eglwys, yn nodi ei fordaith idde'r Iwerydd. Ar ddiwedd yr arysgrif ceir un cwpled Cymraeg:

"Paid â'm bedd; gad i'm heddwch
O'r lle na wasgar fy llwch."

CÔR CAERNARFON YN AMERICA


"Say, this place is full of rabbits," meddai dyn y customs ym maes awyr glawog Efrog Newydd, wedi i'r Jumbo Air India gludo Côr Meibion Caernarfon yn ddiogel dros yr Iwerydd am daith 17 diwrnod yn Unol Daleithiau'r America. Minnau'n poeni am y rheolau cwarantyn cyn sylweddoli mai "full of Roberts" a olygai'r cowboi. Y dyn wedi drysu'n lân o gael 18 ohonom mewn criw o 83 heb sôn am ugain a rhagor o Jonsus. Sylweddoli fod fy nhraed am y tro cyntaf erioed yn cyffwrdd cyfandir newydd sbon a chlywed un cofi'n datgan yn ddwys - "Hogia, dyma ni'n cyrraedd New York a minnau heb fod yn yr hen un eto."

Rydym gartref bellach ers pythefnos a gwn yn iawn eich cwestiynau - yr un rhai y mae pawb yn eu gofyn. Cwestiwn cyntaf - Lle fuoch chi'n aros? Ateb - Efo teuluoedd cyffredin, tra anghyffredin eu croeso, yn Westport a North Haven Connecticut; yn

Efrog Newydd; yn Baltimore, Maryland ac yn Cranbury, New Jersey. Ymwelwyd hefyd â Washington, Miniapolis, Philadelphia, Princeton ac Atlantic City - Cabled go dda mewn 17 diwrnod yntê. Gwelwyd y golygfeydd arferol megis y Statue of Liberty a'r Empire State Building yn Efrog Newydd, y Senedd-dy cyntaf yn Philadelphia a'r Capitol a'r Tŷ Gwyn yn Washington. Clywodd Ronald Reagan ein bod yn dod a dihangodd i Puerto Rico am wythnos o wyliau.

Ond, mi oedd y neuaddau'n llawn dop ar gyfer pob cyngerdd ac mi ganodd y côr yn dda bob cynnig. Bu'n rhaid troi 200 ymaith o'r cyngerdd cyntaf a llanwyd i'r ymylon eglwys a ddaliai 1800 yng nghanol Manhattan, Efrog Newydd. Ymhlith y gynulleidfa ar gyfer y cyngerdd hwnnw yr oedd y tenor byd-enwog Stuart Burrows wedi dod i ddysgu tric neu ddau, bid siŵr, ar gyfer ei berfformiad nesaf yn Nhŷ Opera

DAETH Y GWANWYN



Ydi mae'r gwanwyn wedi cyrraedd! Diolch byth. Daeth Lowri y Llygoden allan i'r ardd i gael 'pas ar gefn' Danial Dŵr y Crwban. "Gest ti napan

go lew?" gofynnodd Lowri. "Do wir - ond am rhyw amball gyfnod o deimlo'n oer. Be' ddigwyddodd dwad?" Ryda ni yn gw'bod yn tydani!

moethus y ddinas. Efallai iddo gofio mai yn Eisteddfod Caernarfon 1959 y dechreuodd ei yrfa ganu o ddifrif oherwydd daeth draw i'n gwesty yn ddiweddarach ac archebu lluniaeth nid bychan i'r hogia a'u gwragedd. Mi ganodd pawb y noson honno heblaw Stuart Burrows!

Ydi, mae popeth yn fawr yn America. Fel y dywedodd Len Porter o Benisarwaun rôl gweld Cardinal, aderyn brongoch, bron gymaint â cholomen - "Mae hyd yn oed y robin goch yn double breasted." Ef hefyd a gasglodd mai pobl dwp iawn yw'r Americanwyr yn gwybod dim oherwydd beth bynnag ddwedwch chi wrthyn hyn "I guess so" ydy'r ateb.

Na 'tydi Efrog Newydd ddim yn beryglus, fawr gwaeth yn y dydd dybiwn i, nag ydy Llanberis yn y nos, ond llawer mwy difyr. Welis i neb yn cael 'i saethu a saethodd 'na neb ato i, heblaw peiriant gamblo yn Atlantic City a daflodd werth £7 o ddarnau pres dros fy mhen yn wobwr am fy ymdrech gyntaf. Mae hyd yn oed gamblo'n fwy proffidiol yn America.

Mae'r eglwysi'n ei gwneud hi'n well hefyd. Treuliasom ein chwe

diwrnod olaf mewn lle tua'r un faint â Llanrug. Eto cyflogai'r eglwys, un o ddwy yn y pentref, ddau weinidog, ynghyd ag organydd-arweinydd côr rhan amser. Roedd graen ar bob adeilad ac olion addolwyr hael. Ond crefyddau neu beidio mae toeth o'r priodasau'n chwalu a llawer wedi priodi ddwywaith neu dair.

Gwlad sgitsoffrenig fel yna ydi Unol Daleithiau'r America - yn oeraidd, fawr, eto'n gynnes, groesawgar, berchen ffyrdd crand tair-pedair lôn i bob cyfeiriad ond yn gosod cyfyngiad gyrru 55 milltir yr awr. Yn gwerthu petrol prin am 70c y galwyn a chwrw am £1.50 y peint. Yn rhoi 12 modfedd o eira yn ein hwythnos gyntaf, a gwres yn y 70au erbyn diwedd ein hail. Yn cynnig 50 o sianelau teledu a dim byd gwerth ei weld ar yr un ohonynt.

Fel y dywedodd Dr Noel Roberts, Caernarfon, un o is-lywyddion y côr, a ddaeth, gyda llaw, â bocsiad o dabledi ar gyfer y gwddf a chael mai yn y pen arall y bu'r galw drwy gydol y daith, "Gwlad cock-eyed ydi hon!" Efallai wir, ond difyr iawn serch hynny. Ac mi awn yn ôl am drip arall fory nesa!

R.J.R.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth



Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

ARTISTIAID O FRO'R ECO AR 5 RECORD NEWYDD!



- TRAED WADIN: FORY HEB EI GYFFWRDD (Dylan Parry o'r Waunfawr a'r Felinheli)
- CÔR MEIBION CAERNARFON: AR LANNAU Y FENAI (J.R. a sawl canwr o fri!)
- CILMERI: HENFFYCH WELL (Iwan Roberts o Lanrug)
- AR LOG A DAFYDD IWAN: CERDDWN YMLAEN (D.I. o'r Waunfawr)
- Y MAB DAROGAN - Cynhyrchwyd ar record gan Hefin Elis, Bethel!
Ac un record arall heb unrhyw gysylltiad â'r fro -
- BANDO: SHAMPŴ (gyda'r gân wych 'CHWARAE'N TROI'N CHWERW')

Y cyfan gan eich cwmni lleol -

SAIN . PENYGROES . CAERNARFON

CYMDEITHAS CAERNARFON A'R CYLCH DROS RAI ARAF EU MEDDWL

Cyhoeddwyd y trydydd rhifyn o 'Hyder' papur newydd blyneddol Cymdeithas Caernarfon a'r cylch dros rai araf eu meddwl a bu'n cael ei rannu am ddim yn yr ardal yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Y mae Hyder yn sôn am waith y gymdeithas a chyfeillion eraill dros y flwyddyn a fu ond yn bwysicach na hynny y mae'n llais dros yr Araf eu Meddwl – pobl na allant, oherwydd natur eu hanabledd, siarad drostynt eu hunain.

Dyma'r rhifyn cyntaf o'r papur i'w gyhoeddi ers Blwyddyn yr Anabl a phwysleisir dro ar ôl tro ei bod yn bwysig nad aiff y flwyddyn honno yn anghof gan fod anabledd yn parhau gyda'r dioddefwr beth bynnag yw enw'r flwyddyn.

Y mae sefyllfa yr araf eu meddwl ychydig yn wahanol i sefyllfa pobl anabl eraill.

"Trychineb fawr y dioddefwyr hyn yw na allant – hyd yn oed wedi tyfu'n ddynion a merched – ddweud wrthyh beth yw eu problemau nac ymladd am eu hiaunderau. Gall y dall, y cloff a'r musgrell, er gwaethaf popeth, roi eu hachos gerbron a chodi eu llais os cânt gam.

"Ni all yr araf eu meddwl. Gallant ddioddef heb sylweddoli eu bod yn dioddef.

"Rhaid i ni sicrhau eu chwarae teg iddynt. Mewn sawl rhan o'r wlad ni chânt y chwarae teg hwnnw," meddir.

MEWN YSBYTAI OND NID YN SÂL

"Er nad ydynt yn sâl y maent yn gorwedd ar un o bob tri o welyau ysbysai Cymru. Cannoedd o bobl nad ydynt yn sâl yn gorfod byw mewn ysbysai am nad oes cyfleusterau addas ar eu cyfer.

"Dywed y Swyddfa Gymreig y dylai fod 195 o leoedd mewn canolfannau hyfforddi oedolion ar gyfer pob can mil o'r boblogaeth – 113 lle sydd yna.

"Y mae'r lleill yn curo wrth y drws bob yn ail a chicio'u sodlau a dal eu dwylo adref.

"Er nad ydynt hwy yn sâl y mae'r gwasanaethau yn sâl ddifrifol."

Megir pryder hefyd am y diffyg lle sydd yna i'r araf eu meddwl mewn canolfannau hyfforddi:

"Yn y papur hwn, dywed Rheolwr

Canolfan Hyfforddi Segontium nad oes ganddo le ond i dri pherson sydd angen gofal tra arbennig oherwydd prinder staff a lle.

"Y mae gweddill y ganolfan yn orlawn a rhai'n disgwyl am le a dim lle ar eu cyfer. Mynd yn waeth wnaiff hi.

"Does gan Gyngor Gwynedd ddim pres – chaiff o ddim pres gan y Llywodraeth.

"Addawodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wario miliwn y flwyddyn trwy Gymru yn y dyfodol. Bydd hynny'n help ond bydd ymhell o fod yn ddigon a chaiff rhywun ei atgoffa o'r dryw a'r môr."

Y tristwch, fel bob amser, yw diffyg arian – er yr ymddengys bod digonedd ar gael ar gyfer ambell i beth sy'n digwydd ennill calon Llywodraeth.

Dyma sylw Dafydd Wigley, A.S. Arfon, mewn erthygl yn edrych yn ôl ar Flwyddyn yr Anabl – blwyddyn y gwelwyd ei fesur ef yn dod yn Ddeddf Gwlad:

"Tristwch mawr 1981 oedd y ffaith i'r arian a oedd ar gael i'r math hwn o wasanaeth hanfodol gael ei leihau mewn termau real.

"O ganlyniad, beth bynnag y geiriau crand a'r cynlluniau pell-gyrhaeddol, prin fod byd yr anabl fawr gwell ar ddechrau 1982 nag ydoedd 12 mis yn ôl.

"Os bu 1981 yn llwyddiant o ran addysgu'r cyhoedd ynglŷn ag anghenion yr anabl y mae bellach yn hen bryd i'r cyhoedd ddangos hynny trwy ddatgan yn glir eu dymuniad i ni, fel gwlad, fabwysiadu blaenoriaethau mwy gwaraidd yn ein polisïau cyhoeddus.

"Pe gwnelid hyn byddai 1981 wedi bod yn llwyddiant ac, o bosibl, yn drobwynt hanesyddol i bobl dan anfantais," meddai Mr Wigley.

Y mae Cadeirydd y Gymdeithas, Mr R. Gwynn Davies o'r Waunfawr, yn pryderu am benderfyniadau dau gorff cyhoeddus:

Penderfynodd Cyngor Iechyd Cymuned Arfon Dwyfor wrthwynebu rhyddhau pobl dan anfantais meddwl o ysbysai i fyw yn y gymdeithas.

Penderfynodd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Dosbarth Aberconwy beidio â rhoi caniatâd i sefydlu cartref i bedwar o rai dan anfantais meddwl yn un o 'avenues' Deganwy.

Y mae'n cyhuddo'r Cyngor Iechyd

o fod yn "ddisensitif" tuag at rai y mae eu hangen yn fawr a gresyna fod y fath anwybodaeth yn parhau ymhlith cynghorwyr, sy'n arweinwyr cymdeithas ac a ddylent wybod yn amgenach.

Y mae'n chwyrn iawn ei feirniadaeth o un cynghorydd yn Aberconwy a ddywedodd mai bwriad y Pwyllgor Cynllunio ydoedd diogelu'r rhai araf eu meddwl rhag plant eraill. Meddai Mr Davies:

"Rwy'n credu iddo ddweud rhywbeth tebyg i 'Gall plant fod yn frwnt iawn, iawn'," meddai.

"Tybed a ystyriodd y cynghorydd hwn erioed fod gan y plentyn a elwir yn 'normal' hawl i ddod i gysylltiad â rhai dan anfantais meddwl?

"Yn anffodus yr ydym yn byw mewn oes pan yw llawer o blant a ieuencid yn ceisio ymgodymu â phroblemau personoliaeth a gall y rhain eu tywys i ddyfroedd llawer iawn dyfnach na'r rhai y mae'r araf eu meddwl ynddynt.

"Onid yw'n sylweddoli faint y mae rhywun yn ei golli o beidio ag andabod rhai sy'n waeth eu byd?

"Onid yw'n sylweddoli y drwg a wneir wrth beidio â rhoi'r cyfle i

bobl a phlant fod yn garedig tuag at eraill?

"Ac yn bwysicach na dim, onid yw'n sylweddoli mai trwy adnabod rhai dan anfantais meddwl y mae hawsaf datblygu safon o werthoedd gwerth chwil?"

Rhennir 'Hyder' yn rhad ac am ddim yn ardal Caernarfon er mwyn cenhadu ymhlith y bobl leol. Fe'i cyhoeddir gyda chymorth hysbysebion gan bobl busnes y cylch ac y mae'r Golygydd yn hael ei ganmoliaeth iddynt am eu cefnogaeth hyd yn oed mewn dyddiau llwm fel y rhain.

"Yn yr ardal hon y mae pobol yn eithriadol o hael gyda'u hamser a'u harian. Plant ysgol yn cerdded i godi pres ac yn cynorthwyo gyda gofal a help llaw. Pobl busnes yn cyfrannu ac hefyd yn prynu hysbysebion i gynnal y papur hwn er ei bod yn ddyddiau blin iddynt.

"Y mae calon pobl cylch Caernarfon yn fawr.

"Y trueni yw nad yw calon y Llywodraeth gymaint ac nad yw haelioni y gwleidyddion gymesur â haelioni'r bobl sy'n eu hethol," meddai.

WEL MIR!



Beth sy' wedi digwydd yn Llanrug tybed? Daeargryn? Mewnllifiad o Awstraliaid i'r pentref? Mae'r peth yn amlwg yn dipyn o broblem i'r plant yn y llun.

MAM-YNG-NGHYFRAITH

Hen fenyw feindrwynt fanwl – yn edrych

Drwy chwydd-wydr am drwbwl;
Ni wybu roi o gwbl
I neb mor ddoeth fab mor ddwl.

John Penry Jones

MAM-YNG-NGHYFRAITH

Menyw fel Mic MacManus – yn fy nhŷ
Rhyngof 'nawr a'm misus;
O, am bla, a cheir mai blys
Trwy'i hoes fu gwisgo'r trowsus.

Henry Hughes

MODURDY
MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

GWYDRO DWBL?

**ARFON WINDOW FITTERS
Ltd.**

56a Ffordd Penchwintan, Bangor
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

LLANRUG

LLONGYFARCHIADAU – calonnog i Arwel Jones, Gwên-y-Wawr ar ei benodiad yn brifathro Ysgol Gynradd y Bontnewydd. Bydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau newydd ym mis Medi.

PRIODAS – Yng Nghapel Tan-y-coed ddydd Sadwrn, Ebrill 17 priodwyd Nia Rhydwen Humphreys, merch Mrs Jane Humphreys a'r diweddar Mr William Humphreys, Lasynys a David William Roberts, mab Mr a Mrs D.T. Roberts, 40 Lôn y Bryn, Porthaethwy. Rhoddwyd y briodferch i'w gŵr gan ei hewythr, Mr Aled Roberts, y Felinheli. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts a'r Parch Ifan Rh. Roberts. Yr organyddes oedd Mrs N. Lovatt. Addurnwyd y capel gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt. Byddant yn ymgartrefu yn 5, Tan y Cae, Bethel. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd iddynt.



DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Tai Plastirion ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tra roedd Mr Roberts yn yr ysbytai. Diolch am y llu cardiau, rhoddion a'r cymwynasau gafodd Mrs Roberts gan y rhai aeth â hi i ymweld. Hefyd i staff Ward Lawfeddygol Isaf, Ysbyty Môn ac Arfon a Ward Twrog, Ysbyty Eryri am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch yn fawr i bawb.

MARW – Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs C. Aubrey Williams, Venice. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs Horman a'r teulu yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir ein cydymdeimlad llwyrfa â theulu'r diweddar Mr Robert Roberts, 'Refail yn eu profedigaeth.

DIOLCH – Dymuna teulu y diweddar Mr Robert Roberts, 'Refail ddiolch yn gynnes am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU – i Gwyn Meirion Roberts, Gregynog ar ddod yn gyntaf yn yr Unawd Offeryn Pres dan 15 yn Eisteddfod Sir yr Urdd a gynhaliwyd yn Llandudno. Dymunwn yn dda iddo yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhwlheli ym mis Mehefin.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Horman, David a Janet, Venice, ddiolch am y cardiau a'r rhoddion dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Cyflwynwyd £123.50 i Ganolfan Hyfforddi Segontium.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Ebrill 13 cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr, Cangen Llanrug yn Festri Capel Llanrug gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair. Methodd y siaradwr gwadd, Mr Gwilym Owen, fod yn bresennol a chynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn lle ym mis Mai.

Dyma'r swyddogion am y ddwy flynedd nesaf: Llywydd, Ann Llwyd; Is-lywydd, Beth Anne Williams; Ar y

pwylgor, Mrs Meirwen Lloyd a Mrs Carrie Owen; Gohebwy'r wasg, Mrs Lola Butler, Miss Megan Humphreys; Cynrychiolwyr i Aberystwyth, Miss Megan Humphreys a Mrs K. Williams, Llain Gwta.

Cydymdeimlwyd â Mrs Catherine Vaughan Jones ar golli ei gŵr. Dymunwyd yn dda i Nia ar ei phriodas a llongyfarchwyd Carys Jones ar benodiad ei gŵr Arwel yn brifathro Ysgol Bontnewydd. Diolchwyd am gyfraniadau a helpwyr at y stondin yn y Ffair Wanwyn a gynhaliwyd yng Nghaernarfon.

Mynegwyd dymuniadau da i'r Parch a Mrs W.O. Roberts ar ei ymddeoliad.

Diolchodd Mrs Jean Roberts i'r gwestwagedd, Mrs Meirwen Lloyd, Mrs Carrie Owen, Mrs Sheila Williams a Mrs Vera Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf Mai 11 pryd y disgwyliwn Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr i roddi hanes ei gwyliau diweddar yn Awstralia.

CLWB BLODAU'R GRUG – Dydd Iau, Ebrill 8 yn y Neuadd Goffa cynhaliwyd Clwb Blodau'r Grug dan lywyddiaeth y Llywydd, Mr John Williams, Gwledfa.

Y gŵr gwadd oedd Mr Orwig Roberts, Elidir View, Llanrug a fu ar ymweliad â'i wlad enedigol, y Wladfa. Cafwyd hanes a ffilmiau o'r Wladfa gyda Mrs J. Roberts yn ei gynorthwyo.

Diolchwyd iddo gan Mr Emrys Owen, 9 Hafan Elan ac Ifor Williams, Gwelfryn.

Cyflwynwyd rhodd i Mr Tommy Jones, 6 Rhosrug gan y Llywydd fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth i'r Clwb.

Croesawyd yn ôl ar ôl gwaledd Mrs C.A. Williams, Bryn Teg a Mrs Inigo Jones, Eilionwy. Dymunwyd gwellhad buan i Mr J. Williams 1, Bryn Coch. Rhoddwyd y te gan Mrs L. Hughes, Isfryn, Mrs K.O. Owen, Mountain View, Miss M. Owen, 39 Hafan Elan a Mrs C. Jones Evans, 39 Brorhyddallt. Enillwyd y raffl gan Mrs Inigo Jones, Eilionwy. Bydd y cyfarfod nesaf Mai 13.

DIOLCH – Dymuna'r Parch a Mrs W.O. Roberts ddiolch yn fawr i holl aelodau eglwysi ei Ofalaeth, ac i lu mawr o drigolion eraill o ardal Llanrug am eu haelioni tuag atynt a'u dymuniadau da ar ymddeoliad Mr Roberts o gyflawn waith y Weinidogaeth.

DIOLCH – Dymuna Pwylgor Gofalaeth Eglwysi Presbyteriaidd Cymru Llanrug, Pontrhythallt, Tan-y-coed a Cheunant ddiolch i aelodau'r eglwysi hyn, ac i bawb arall gyfrannodd tuag at Dysteb y Parch W.O. Roberts ar achlysur ei ymddeoliad. Diolch yn fawr am ymateb haelfrydig.

CYDYMDEITHAS CHWIORYDD (Capel Mawr) – Nos Iau Ebrill 1af 7.30 o'r gloch cafwyd noson goffi ar wahoddiad Mr a Mrs Iolo Llywelyn, Pant Afon Bach. Daeth nifer dda ynghyd a chafwyd croeso mawr. Anfonwyd cofion at chwiorydd oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaledd neu amgylchiadau eraill.

Cydymdeimlwyd â Mrs L. Horman a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam annwyl iawn. Gwnaed elw sylweddol. Fe'n gwahoddir Mai 6 gan Mrs Jones, Sŵn y Gwynt. Llywyddwyd gan Mrs Nancy Roberts, Anedd Wen a hi a ddiolchodd i Mr a Mrs Llywelyn am eu croeso. Diolch hefyd i bawb a redodd eu car i fynd â phawb yno.

Cynhelir noson goffi gan Undeb y Mamau Llanrug yn yr Ysgol Gynradd nos Iau, Mai 13 1982 am 7 o'r gloch. Bydd yr elw yn mynd i Gymdeithas y Deillion.

YSGOL FEITHRIN – Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus yn yr ysgol gynradd Mawrth 31. Dymuna'r pwylgor ddiolch i Mr Derfel Gruffydd y prifathro, gofalwr a staff y gegin am eu cydweithrediad. Diolchwn hefyd i'r siopwyr lleol am eu rhoddion tuag at y stondinau a'r raffl ac i bawb am eu cefnogaeth.

PLAID CYMRU – Cynhelir Ffair Wanwyn y gangen nos Fercher Mai 5 yn yr Ysgol Gynradd am 7.00

BABAN NEWYDD – Ddydd Sul, Ebrill 25 ganed mab, Gwion, i Iwan a Gwenda Roberts, Pentyffryn, Talybont. Llongyfarchiadau!



Llinos Davies o Lanrug – a dorrodd dair record nofio Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Mae wedi ennill y canlynol am nofio – safonau efydd, arian ac aur am 'Personal Survival' a safonau cychwynnol mewn achub bywyd. Deuddeg oed yw Llinos, ac yn anffodus rhaid iddi ddisgwyl nes bydd yn 14eg cyn mynd ymlaen â'i chwrs achub bywyd. Mae eisoes wedi ennill pedair o darianau am nofio, ac y mae bellach wedi ymaelodi â Chlwb Nofio Dinas Bangor. Pob lwc iddi yn y dyfodol.



Jeremy Taylor o Gwmni Cyfri 3 yn Ysgol Gynradd Llanrug yn ddiweddar. Cyflwynodd hanes bywyd Henri'r Sipsi. Yn y llun gyda Jeremy Taylor mae Iestyn Roberts wedi ei wisgo fel Mari'r forwyn.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

CRWYDRO CYMRU

Yn ystod yr wythnos olaf o Ebrill ymddangosodd llawlyfr newydd o'r enw *Crwydro Cymru*, sy'n cynnwys manylion a disgrifiadau o wyth deg tri o wahanol atyniadau ar hyd a lled Cymru, ynghyd â rhestr o rai o brif ddigwyddiadau'r flwyddyn, megis gwyliau cerdd ac eisteddfodau. Cyhoeddwyd y llyfryn gan Fwrdd Croeso Cymru.

Fe'i anelir yn bennaf at sefydliadau, cymdeithasau, trefnwyr teithiau ac ysgolion; hynny yw, fe'i bwriadwyd fel llawlyfr i'r rheiny sy'n gyfrifol am drefnu teithiau grŵp o unrhyw fath.

Ceir ynddo nifer o syniadau newydd am lefydd diddorol ac anghyffredin i ymweld â hwy, ynghyd â manylion am delerau, oriau agor, cyfleusterau i'r anabl a chyfleusterau parcio a bwyta. Ymhlith y dewis eang o atyniadau a geir yn y llyfr mae cestyll, tai hanesyddol, gerddi swolegol, parciau, melinau, amgueddfeydd, trenau, theatrau a chanolfannau crefft.

Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Cathryn Gwynn, Bwrdd Croeso Cymru – Ffôn (0222) 499909.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
LLANBERIS 872285
NEU 871327

NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL - Yn Eisteddfod Sir Eryri, Mawrth 27, daeth llwyddiant i lawer un o'r ysgol. Daeth Gwyn Meirion Roberts yn gyntaf gyda'r Unawd Pres, Delyth Fôn Williams, yn 3ydd ar y Piano, Einir Parri yn bedwerydd ar yr unawd telyn, Bethan Jones yn drydydd ar y fflwt, a'r Parti Cerdd Dant yn ail. Roedd canmoliaeth uchel i'r rhai na gafodd lwyfan hefyd.

Gwyn fydd yn mynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhwlheli, ddiwedd mis Mai. Diolch i Mrs Carys Jones, Mrs Rhian Ellis, Mrs Jean Fleming a Mrs Mary Hughes am fod mor brysur yn eu hyfforddi.

ARLUNIO - Cafodd yr ysgol llwyddiant hefyd yn y maes Arlunio yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Daeth Christopher Mark Williams yn ail, a daeth Dylan Wyn Jones, Jacqueline Hobby, Rachel Wiggins a Louise Bernard i gyd yn drydydd mewn cystadlaethau eraill. Diolch i Mr Evie Roberts am eu helpu ymhob ffordd.

HOLI BEIRDD ENWOG - Ddydd Llun, Mawrth 29 aeth rhai o aelodau'r chweched dosbarth, ynghyd â Mr Fleming i gyfarfod yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Roedd disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes ac Ysgol Syr Hugh Owen yno hefyd, yn holi'r Athro Gwyn Thomas a Mr Alun Jones am eu gweithiau a barddoniaeth Gymraeg.

CYNGERDD 'GWLITH' - Nos Iau, Ebrill, 22 cafwyd cyngerdd yn yr ysgol. Cymerwyd rhan gan ddoniau'r ysgol a 'Gwlith' yn ogystal â rhai o'r cyn-ddisgyblion, - Hogia'r Wyddfa, Annette B. Roberts, Megan Roberts a 'Genod Ni'.

Roedd y cyngerdd tuag at gostau'r grŵp gwerin modern, 'Gwlith' i fynd i gynrychioli Cymru yn yr Wyl Ban-Geltaidd yng Nghill Airnie ym

mis Mai.

ARDDANGOS GWAITH RHAI DISGYBLION - Dangoswyd darluniau'r canlynol mewn arddangosfa ym Mae Colwyn y mis diwethaf dan nawdd Cymdeithas Swolegol Gogledd Cymru: Judith Kisalu, Elir Llywelyn Jones, Tegwen Williams, Rhian Davies, Dylan Wyn Jones a Harri Rheinalt Parry.

THEATR GWYNEDD - Aeth Mrs Manning a rhai o aelodau'r pumed dosbarth i Weithdy Twelfth Night yn Theatr Gwynedd, Ebrill 20. Mae'r llyfr hwn yn ran o'r cwrs Saesneg Lefel 'O'.

NODDWYR OS GWELWCH YN DDA? - Eleni eto y mae 70 o blant yr ysgol o dan arweiniad Mrs N. Manning, Mrs M. Wroe a Mr Elfyn Thomas yn gobeithio ymdrechu taith anturus trwy ganol mynyddoedd peryglus y Swisdir, yr Eidal a Ffrainc. Gobaith y grŵp yw cychwyn ar y 3ydd o Orffennaf 1982 a theithio am rhyw 9 diwrnod yn ardal enwog Mont Blanc. Bydd hyn yn golygu dringo i fyny ac i lawr amryw o fynyddoedd am tua 140 o ffiliroedd. Yn anffortunos, mae angen tua £2,000 i dalu am y daith a byddai'r ysgol yn falch iawn pe baent yn cael noddwyr iddynt.

Os am fwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol yn fuan (rhif ffôn Caernarfon 2381). Diolch yn fawr!

PÊL-DROED - Dewiswyd Malcolm Allen a Steven Owen i chwarae i dîm Ysgolion Arfon yn erbyn tîm ieuenctid Unol Daleithiau ym Mangor. Collodd Ysgolion Arfon o 3 gôl i un. Malcolm sgoriodd yr unig gôl.

Yn ystod yr un wythnos fe chwaraeodd Malcolm i dîm dan 15eg Ysgolion Gwynedd yn erbyn yr Americanwyr a'u curo y tro yma o 4 gôl i 1.



Tîm Pêl-droed 5-bob ochr yr 'Eco'. Hanes ar y dudalen gefn.

ATEBION: Ffrwythau a llysiau:

RWDAN; TATWS; MORON; BRESYCH; PYS; TOMATO; AFAL; OREN; BANANA.

ATEB: Y Tywydd - 'Morus y Gwynt'.

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU

T. CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: Llanberis
870205

BAT HARRI COED

gan Goronwy Owen, Porthcawl

FEL bechgyn pob oes a phob ardal, chwarae oedd ein prif ddiddordeb yn y tri degau. Roedd pêl-droed a chriced yn bwysig iawn i ni, yn enwedig ar ôl i rai ohonom fynd i Brynrefail. Prin iawn oedd ein celfi, a'r rhan fwyaf wedi'u gwneud neu wedi'u prynu yn Woolworth Stryd Llyn: batiau a wicedi bach, pêl gorcyn, os oedden ni'n lwcus, a phêl-droed Oxo. Roedd rhaid casglu pum can papur bach Oxo, a'u hanfon i ffwrdd i gael un bêl-droed, a choeliwch chi fi, doedd gan y Coparet ddim hanner cystal cydweithrediad â ni hogiau'r pentre, pan oedd cynllun fel hyn ar y gweill.


Weithiau roedden ni'n mynd ati i wneud bat criced. Llifio a naddu darn o hen blanc oedd y ffordd arferol, ond mae un bat criced, sef bat Harri Coed, yn sefyll allan yn fy nghof, fel dafad ddu yng nghanol defaid gwyn.

Yn aml roedden ni, hogiau Llawnen yn trefnu gêm, yn erbyn hogiau Newton, Lôn Bost neu Blaen Ddôl.

Os gwn i beth fyddai Botham yn feddwl o'n pitch criced ni, sef clwt o fawn noeth yng nghanol creigiau a deri Cae Coed, Tai Christmas. Ta beth dyma ddechrau ar y gêm, a Newton yn batio gynta. Wicedi Woolworth oedd gennym, naw modfedd o uchder, hen bêl gorcyn wedi dechrau colli'i siâp, a batiau pren solat. Roedd gan Newton griw da o chwaraewyr, Nowi Maes Llwyn, Meic a John Glyn Ddôl, Alun Sam ac eraill, ond Harri Coed oedd eu pencampwr.

Ef oedd y cynta i fewn, a wnaeth neb bryderu wrth weld ei fat, ochor gyfan bocs siwgwr, a handlan gref wedi'i sgrwio i fewn. Roedd y bat dair gwaith maint y wicedi, ac er i ni gael y lleill allan un fesul un, doedd dim modd taro wiced Harri. Roedd hi fel ceisio bowllo trwy Graig yr Undeb gyda pêl ping pong. Yn waeth byth, roedden ni'n gadael i'r bachgen olaf gario 'mlaen (last man in) ac roedd y sgoôr wedi cyrraedd 103 pan redon ni fe allan.

Ond cododd pryder nawr. Yn ôl pob trefn a rheol, gwrthododd



bechgyn Newton i ni fenthyca'r bat. Er erfyn a ffræo, "Na chewch", oedd yr ateb pendant, ac mewn tymer ddrwg iawn yr aethom ni i mewn a gwneud rhyw sgôr fach barchus o 47.

Dechrau'r ail "innings", a'r gwaed erbyn hyn yn berwi. Harri yn codi'r bat enfawr i rwbio halen yn y briw. Ond nid felly oedd hi i fod. Ein Harri ni, Harri Bach Llawnen yn bowllo un "full toss", nerth ei holl esgyrn, a'r bat yn cracio yn nhyllau'r sgrwio. Haleliwia. Rydw i'n cofio hwre Eric Humphries ac Arthur Pen Graig, hyd heddiw.

Torrodd Newton eu calonnau. Credaf i ni'u bwrw nhw allan am lai na deg rhediad. Doedd ddim posibl i ni'u curo nhw er hynny, ond roedd cyfiawnder wedi gorchfygu. Rhyw ffordd neu'i gilydd, roedd y ddau dîm wedi ennill.

NANT PERIS

GWAELEDD - Dymunir gwellhad buan i Mrs H. Thomas, 9 Glanrafon sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Yr un yw'r dymuniad i bawb arall yn y pentref sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar.

LLONGYFARCH - Llongyfarchiadau i Helen Mai, Tŷ Isaf ar basio arholiad piano gradd pedwar dan nawdd Coleg Cerdd Brenhinol Llundain.

EISTEDDFOD - Cynhaliwyd Eisteddfod Capeli Llanberis a Nant Peris yng nghapel Gorffwysfa nos Iau a nos Wener Ebrill 22 a 23. Fe roddodd plant y Nant gyfri da iawn ohonynt eu hunain fel arfer. Dyma'r canlyniadau:

Maes Llafur dan 5: Beverly Ann Roberts, 1af; **dan 7:** Llinos Haf, 2il; **dan 10:** Iestyn Roberts, 1af; Alan Pritchard, 2il; **dan 12:** Arwyn Roberts, 1af; Siân Elen Pritchard, 2il; **Canu dan 7:** Llinos Haf, 2il; **dan 12:** Helen Mai Pritchard; Siân Elen, 2il. **Adrodd dan 7:** Llinos Haf 1af; **dan 10:** Iestyn Roberts, 1af; **dan 12:** Helen Mai, 2il; **Canu piano dan 12:** Helen Mai, 1af; Siân Elen, 2il; **dan 15:** Sharon Roberts, 2il. **Gwnio dan 12:** Siân Elen, 1af; **Gwneud Llun dan 9:** Karen Price, 2il; **Traethawd dan 7:** Llinos Haf, 2il; **dan 12:** Siân Elen, 2il; **Lliwio:** Llinos Haf, 2il. Cafwyd cân actol Y Sipswn gan y plant i gyd ac yn ôl y beirniad yn llwyr deilyngu'r wob. Diolch i bawb a gymerodd ran yn hyfforddi'r plant.

DRAENOG



Clywed fod defaid William Morgan wedi cyrraedd Bethel (neu o leiaf ei faharen) - cael hwyl garw yn twlcio (a tholcio) car un o chwaraewyr rygbi yno.

DEINIOLLEN

DYMUNA Mrs W.M. Hughes, Rhiwen ddiolch i'r teulu, i'w ffrindiau, a'r ardalwyd am yr arian a dderbyniodd ar farwolaeth ei hannwyl briod, Mr W.M. Hughes. Trosgwyddwyd £250.50 i Ysbyty Môn ac Arfon tuag at Ymchwil y Cancr.

LLONGYFARCHIADAU - i Patricia Ann Barlow, 67 Pentre Helen ar lwyddo yn ei harholiad S.R.N. yn Ysbyty Môn ac Arfon. Mae'n barod wedi dechrau ar ei swydd newydd. Da iawn hi, a phob llwyddiant iddi eto yn y dyfodol.

MARW - Bu farw Mrs Margaret Roberts, 31 Rhydfadog ddydd Gwener Ebrill 2 yn dawel ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis lle y bu yn cartrefu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gweddwyd i'r diweddar W.T. Roberts, Tal-y-Waen oedd Mrs Roberts ac estynnwn ein cydymdeimlad â'i meibion a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Roedd gan Mrs Roberts lawer o gyfeillion a chafodd fyw i oedran teg o 91. Dymuna Mr a Mrs Gwilym Roberts, Chester House ddiolch i'w cyfeillion ac ardalwyr am eu rhoddion, fe fydd yn cael ei drosglwyddo i Cartref Pen Gwaith - gyda llawer o ddiolch am ofal caredig y staff tra bu Mrs Roberts yno. Diolch i bawb am eu cydymdeimlad â hwy fel teulu.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor Mawrth 22 pryd y cafwyd Darlith gan Mr Morris Roberts, Bodorgan. Llywyddwyd gan y Parch Trevor Lewis.

CYNGOR EGLWYSI - Bore Gwener y Grogoleith gweinyddwyd Sacrament Swper yr Arglwydd yng Nghapel Ebenezer. Mae'r ail wythnos o Fai yn wythnos Cymorth Cristnogol. Yn ystod yr wythnos daw casglyddion o amgylch yr ardal i dderbyn rhoddion at yr achos yma. Cynhelir gwasanaeth dan nawdd y Cyngor yn Festri Cefn-y-Waen, nos Lun, Mai 10.

LLONGYFARCHIADAU - i Delyth Fôn Williams, 12 Ffordd Deiniol, am ddod yn drydydd ar unawd piano yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn Llandudno. Ail yn Eisteddfod y Bontnewydd a chyntaf yn Eisteddfod Llanrwst. Hefyd Mari Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, am ddod yn gyntaf yn Eisteddfod y Bontnewydd ar unawd canu.

CYNHELIR Cyfarfod Sefydlu'r Parch Aled Edwards, B.A., yn Ficer Llandinorwig a Phenisarwaun yn Eglwys Crist, Llandinorwig, nos Wener Ebrill 30 am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

CLWB ELIDIR - Cyfarfu'r aelodau yn y Clinic, Mawrth 23. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs C. Marren. Estynnwyd croeso cynnes i Mrs Gladys Evans yn ôl i'r clwb ar ôl bod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth i'w llygad. Rhoddwyd y tei'r aelodau gan Miss Kathleen Jones ar ddathlu ohoni yn 60 oed diwrnod ei phen-blwydd. Y wraig wadd i'r cyfarfod oedd Miss Jane Jones, Ymwelydd lechyd. Rhoddodd sgwrs a ffilm i'r aelodau ar Waith Tŷ Heb Straen. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Anfonwyd cofion i'r aelodau oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaeledd. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs E. Williams, 2 Bwthyn oedd yn 80 oed a Mrs Jinnie Williams, Tai Caradog. Cydymdeimlwyd â Mrs Nell Griffith, 24 Rhydfadog ar golli ei chwaer yn Ninorwig. Enillwyd y raffl rhoddedig gan Mrs Jennie Wyn Williams, 88 Pentre Helen, gan Miss Kathleen Jones.

Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Elidir yn y clinic ddydd Mawrth Ebrill 13. Llywyddwyd gan Mrs C. Marren.

Estynnwyd croeso yn ôl i amryw o'r aelodau oedd wedi bod yn cwyno. Cyfeiriwyd at y golled a gafodd y Clwb ym marwolaeth Miss Eleanor Jones. Aelod selog a gweithgar o'r Clwb am nifer o flynyddoedd. Talwyd teyrnged iddi gan Mrs Marren a Mrs Williams, 2 Bwthyn a Miss Kathleen Jones. Estynnwyd croeso cynnes i Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, yn aelod newydd o'r Clwb, ac un a fu'n gweithio am lawer o flynyddoedd pan godwyd y Clwb yn y dechrau.

Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen, gan Mrs Olwen Jones, Lleiniau. Rhoddwyd y te gan yr aelodau canlynol, Mrs Maggie Roberts a Mrs Katie Griffith, Dinorwig, Mrs Elsie Davies a Mrs Mary Thomas.

Dymuna Miss Kathleen Jones, Prenteg ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Y SEINDORF - Enillwyd Clwb 200 am fis Ebrill - 1af. (£25) Rhif 77, Mrs M. Griffiths, 27 Bryntirion, Bethesda. 2il, (£15) Rhif 120, Mrs J. Jones, 30 Hafod Olau. 3ydd, (£5) Rhif 61, Mr Eifion Hughes, Tai'r Vaynol.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cyfarfod mis Ebrill y gangen. Croesawyd Mrs Griffiths o'r Swyddfa Gynghori Dinasyddion Caernarfon gan y llywydd Mrs Eirlys Williams. Cafwyd noson ddifyr yn sôn am hawliau'r unigolyn mewn busnes, ac yn y blaen. Goleuwyd yr aelodau am gyfraniad bwysig a defnyddiol y ganolfan i'r aelodau o'r cyhoedd sydd yn gofyn iddynt am help. Diolchwyd i Mrs Griffiths gan amryw o'r aelodau.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Miss Kathleen Jones gan ei bod yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn y diwrnod hwnnw. Cyfeiriwyd at waeledd rhai o'r aelodau a'u perthnasau, a dymunwyd iachad llwyr a buan iddynt. Hefyd cydymdeimlwyd â Miss Mowler, Clwt-y-bont ar farwolaeth sydyn ei mam yn Lloegr. Rhoddwyd y te gan Mrs Marian Wyn Williams a Mrs Beryl Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs Nancy Rowlands a Mrs Eirlys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mai 10 yn yr Ysgol am 7 o'r gloch pryd daw 'V.C.O.' i olrhain y Cyfarfod Blynnyddol yn Llundain a gynhelir Mehefin 3. A fuasai yr aelodau sydd yn dymuno mynd i Gyngor y Gwanwyn yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes nos Wener, Mai 14 roddi eu henwau i Mrs Rita Jones, Y Becws, neu Mrs Marian Williams, Siop Cigydd gynted â sydd bosib os gwelwch yn dda er mwyn cael sicrhau bws. Diolch yn fawr.

DIOLCH - Dymuna lrfon ac Eilwen Morris, Clegyr, Llanfairpwll ddiolch yn fawr am y llu anrhegion a dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Lun, Ebrill 19. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Miriam Lewis. Darllenwyd cofnodion y tri chyfarfod diwethaf gan yr ysgrifennydd. Treuliwyd noson hynod o ddifyr efo sesiwn o 'Hawl i Holi'. Braidd yn siomedig oedd nifer y cwestiynau a ddaeth i law. Aelodau'r panel oedd, Miss Elizabeth Griffith, Cefn-y-Waen, Mr John Emrys Morris, Libanus, y Parch Trefor Lewis, Disgwylfa. Yn absennol oedd Mr Gwyn Parry, Ebenezer. Yr holwr oedd Mrs Margaret Griffith, Cyfni House. Diolchwyd i'r panel a'r holwr gan Mrs Jane Eirlys Williams. Pasiwyd

cydymdeimlad â theulu y ddiweddar Miss Eleanor Jones, a fu'n aelod gweithgar o Ferched y Wawr. Hefyd cydymdeimlwyd â Miss Moller yn y brofedigaeth o golli ei mam. Dymunwyd adferiad buan i ddwy aelod hefyd sydd wedi bod yn wael, Mrs Gwen Hughes, mGwyndy, Rhiwen a Mrs Dilys Hughes, Ty'n y Weirglodd. Darparwyd y te gan Mrs Margaret Roberts, Mrs Helen Sutherland, Mrs Falmal Williams a Mrs Marian Williams. Rhoddwyd y raffl gan Miss Meirion Jones, Bro Elidir, Dinorwig a'r enillydd oedd Mrs Gladys Jones, Tŷ Capel, Libanus. Ein cynrychiolwyr i'r Gynhadledd i Aberystwyth, Mai 1, fydd Mrs Gladys Jones a Mrs Miriam Lewis. Bydd y cyfarfod nesaf Mai 17 yng ngofal Mrs Megan Morris, Dinrowg a Mrs Gladys

Evans, Gallt-y-foel.


YR YSGOL FEITHRIN - Cynhelir parti dillad Stellaware er budd yr Ysgol Feithrin yn Neuadd yr Eglwys 7.30 o'r gloch, nos Fercher, Mai 5. Croeso cynnes i bawb. Dillad o bob math ar werth i bob oed - plant ac oedolion. Dalier sylw - rhaid talu am y nwyddau ar y noson. Darperir lluniaeth ysgafn.

YR WYL FEITHRIN - Bydd plantos bach yr Ysgol Feithrin yn cymryd rhan yn yr Wyl Feithrin a gynhelir ym Mangor ym mis Mai. Bydd y mamau yn mynd â nhw i Fangor, ddydd Mercher, Mai 12 i ymuno â phlant o nifer o gylchoedd meithrin eraill a chael llawer o hwyl a sbri. Ar hyn o bryd mae'r plant wrthi'n brysur yn dysgu hwiangerddi i'w perfformio ym Mangor.

Y SEINDORF YM MANGOR



Aelodau'r Seindorf yn difyrru rhai o bobl Bangor ar achlysur cyflwyno siec o £1,500 i Gronfa Apêl Gweithwyr Dinorwig i brynu peiriant arbennig i drin cancr.



Dyma lun y peiriant gwres thermo therapi Laveen fydd yn cael ei symud o Gaerdydd i Ysbyty newydd Gwynedd yn y dyfodol agos - diolch i ymdrechion Seindorf Deiniolen a nifer o bobl eraill.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

Newydd Sbon! Gweithdy Crefftau



SIOP AMAN Stryd Fawr
DEINIOLLEN Ffôn: Llanberis 871210

Creffftwaith llechi, anrhegion
a chofroddion lleol.

TEYRNGED I MISS ELEANOR JONES

Cyn-brifathrawes Ysgol y Babanod, Deiniolen
gan Mr Richard Jones, B.Sc., cyn-brifathro Ysgol Gwaun Gynfi

Bu farw'r foneddiges hon Ebrill 1, 1982 a rhoddwyd ei chorff ym mhriddell oer Mynwent Llandinorwig, Ebrill 6. Bu'n brifathrawes ysgol y pentref am dros ugain mlynedd, ac ymddeolodd yn 1966. Ganwyd a magwyd hi yn Neiniolen, a hi oedd yr olaf o'r teulu. Brawd iddi oedd Hugh Robert Jones (H.R.) 1894-1930. Sylfaenydd Plaid Cymru, a'i Threfnydd cyntaf, 1926-1930.

'Roedd ef yn un o'r cwmni bach, breiniol, a gyfarfyddodd ym Mhwlheli, yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd yno yn 1925, i geisio rhoi'r mudiad ar ei draed. Ef hefyd, fu'n gyfrwng i newid enw'r pentref o Ebenezer i Deiniolen yn y dau-ddegau. Methodd â mynd â'r maen i'r wal hefo amryw o bentrefi eraill gydag enwau Iddewig fel Bethel.

Cefais y fraint o gydweithio hefo Miss Jones am chwarter canrif yn Ysgol Gwaun Gynfi. 'Roedd yn athrawes yn yr ysgol cyn ei hapwyntiad yn brifathrawes. Pan ymddeolodd yn 1966, penderfynodd y Pwyllgor Addysg uno Ysgol y Babanod ac Ysgol Gwaun Gynfi o dan yr un prifathro, am fod y ddwy ysgol o dan yr un to. Felly, cefais y fraint o'i dilyn a balch iawn oeddwn o gael profi awyrgylch gynnes a braf Ysgol y Babanod am ddwy flynedd, hyd at fy ymddeoliad yn 1968.

Dau ddiddordeb mawr ym mywyd Miss Jones oedd yr ysgol, a chapel Ebenezer (A). 'Roedd yn meddwl y byd o'i swydd fel prifathrawes, a gweithiodd yn ddiwyd a chydwybodol, nid er mwyn ennill cyhoeddusrwydd a phoblogrwydd, ond er budd a lles y plant a oedd dan ei gofal. Fel cydweithiwr â hi, cefais gyfleusterau di-ri i'w hadnabod. 'Roedd yn bersonoliaeth ddistaw a di-stŵr. Nis gwelais erioed wedi colli ei thymor ac yn ymfflamychu! Ni chlywais hi erioed, chwaith, yn chwerthin yn uchel, dim ond rhyw wên fach, slei a siriol, ac nid oedd byth yn uchel ei chloch.

Rhaid cofio, ar y llaw arall, nad oedd yn berson meddal a hyblyg, hawdd ei throï. 'Roedd haearn yn ei gwneuthuriad! - fel yn ei brawd, H.R. ac 'roedd egwyddorion cadarn yn rheoli ei bywyd. Nid oedd dim "chwim-chwam" yn perthyn iddi.

Nid oedd Miss Jones a minnau yn edrych yn union i'r un cyfeiriad yn y byd gwleidyddol, ond ni fyddem byth yn dadleu nac yn ymgecu ynglŷn â'r problemau a berthynent i'r byd helbulus hwnnw. Yr oedd ganddi syniadau pendant ac argyhoeddiadau dyfnion, ac nid ar chwarae bach y buasech yn medru ei throï! Er hyn 'roedd ganddi y ddawn prin a rhyfeddol honno o beidio â cheisio gwrthio ei hargyhoeddiadau ei hun i lawr gyddfau pobl eraill.

'Roedd yn Annibynwraig selog a gweithgar, a bu'n ysgrifennydd Eglwys Ebenezer am flynyddoedd, gan gyflawni ei gwaith yn drefnus a chydwybodol, ac o hyd yn hollol ddi-stŵr a di-gyffro, gan gadw yn y cefndir, a byth yn meddwl gwrthio ei hun i'r amlwg.

Cymerodd ddiddordeb ymarferol a gweithgar mewn amryw o fudiadau a chymdeithasau yn y pentref ar hyd y blynyddoedd. 'Roedd hi a mi a ryw ddeg arall o'r pentrefwyr yn aelodau o ddosbarth allanol Cynan, - am ddeng mlynedd! 1958-1968. Dau ddeg pedwar o ddarlithoedd pob gaeaf - darlithoedd byw a ffres ar bynciau llenyddol Cymreig. Dyna gyfanswm o agos i ddau gant a hanner o ddarlithoedd gan yr anfarwol Cynan! Mrs M.A. Thomas oedd yr ysgrifennydd y dosbarth ar hyd y blynyddoedd. Gallaf dystio fod y deng mlynedd yma wedi bod yn fodd i fyw i Miss Eleanor Jones, ac i bob aelod o'r dosbarth.

Ni all Deiniolen, mwy nag unrhyw bentref arall yng Nghymru, yn y dyddiau sydd ohoni fforddio colli merch fel Eleanor Jones. Credaf fod englyn Mathonwy Hughes i 'Ferch rinweddol' yn addas iawn i gloi fy lllith. Dyma fo:

Er dyfod briw y diwedd, - ni roddwyd
Dan briddell ei bonedd;
Na, rhy annwyl ei rhinwedd
I'w gelu byth dan glo bedd.

LLYFRAU

Dyma'r llyfrau diweddaraf i'w cyhoeddi dan nawdd cynlluniau llyfrau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru:

Y Ddraig Werdd - gan Dyfed Glyn Jones, Cyhoeddwyd - Urdd Gobaith Cymru - **Pris £1.95.**

Cyrol addas ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 13 oed. Hanes Robin sydd wedi cael gwahoddiad i fynd i Ganada fel athro dros dro. Ar ôl cyrraedd mae'n cael ei hun mewn cyfres ddyrys o helyntion yn ymwneud â'r ddraig werdd.

Cychwyn - Cyfres o lyfrau wedi'u cyhoeddi gan Wasg y Dref Wen - **Pris £1.50 yr un.**

Cyfres o lyfrau ffeithiol, lliwgar yn bennaf ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol gynradd. Mae'r pum cyfrol gyntaf yn y gyfres yn trafod Mynd i'r Swm, Adarm, Teithio'r Gofod, Ceir a Maes Awyr. Cynhwysir geirfaedd, gweithgareddau a phosau.

Harmoni a Gwrthbwynt gan Lily Richards. Cyhoeddwyd Gwasg Gwynedd - **Pris £3.90.**

Cwrs ar gerddoriaeth harmoni a gwrthbwynt ar gyfer disgyblion arholiad Safon Gyffredin (Lefel O) i'w paratoi ar gyfer y Safon Uwch (Lefel A). Mae'n addas hefyd ar gyfer myfyrwyr a phawb sydd â diddordeb yn y maes. Gwaith ydyw a gomisiynwyd yn wreiddiol gan Awdurdod Addysg Gwynedd.

Arweiniad at Islam gan Glyndwr Harris. Cyhoeddwyd Gwasg Pantycelyn - **Pris £4.00.**

Dyma'r drydedd gyfrol yng nghyfres Crefyddau'r Byd. Trafodir Islam o safbwynt llên a hanes, ei dysgeidiaeth a'i chredoau, ei defodau a'i gwylliau. Ceir nifer o luniau a mapiau, ac ar y diwedd, unedau gwaith.

YMGYRCH DIARFOGI NIWCLIAR Y FRO

Cwblhaodd cangen Dyffryn Peris o'r Ymgyrch Diarfogi Niwcliariol y gwaith o fynd â deiseb yr Ymgyrch Diarfogi Byd o gwmpas yr ardal. Er na fu'n bosib galw ar bawb drwy'r fro cafwyd cefnogaeth frwd a deallus gan bawb bron a gafodd y gyfle i arwyddo'r ddeiseb. Mae'r ymgyrchwyr yn ddiolchgar i'r ardalwyr am eu croeso boneddigaidd a'u cefnogaeth. Aeth nifer dda o'r fro i'r Rali Heddwch yng Nghaernarfon dros y Pasg; bu'r Rali'n fodd i gryfhau ac uno'r ymgyrch drwy Arfon.

Dyma raglen Dyffryn Peris am y mis:

Gwener, Ebrill 30: Cyngerdd Roc yn Fferm Bron Eryri, Llanberis gyda Fay Wray, Maffia Mr Huws, Ghostriders ac Offspring. Ticedi £1. Manylion - Llanberis 870640.

Sadwrn, Mai 1: Gŵyl Lafur, Undeb y Myfyrwyr ym Mangor. Thema - Gwaith nid arfau. Bws o'r Ganolfan 1.00 p.m.

Sadwrn, Mai 8: 2.00 - Ffair Wanwyn yn y Ganolfan Adloniant, lluniau, stondinau, sioe anifeiliaid anwesm stondin planhigion, hen greiriau a reid merlen a mul.

7.30 p.m. - Bwffw a Disgo yn y Victoria, Llanberis. Ticedi £4. Manylion Llanberis 870748.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

**Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606**

**Welsh
Development Agency**

YN SINC TWLL CLAWDD YN NECHRAU'R DAUDDEGAU



Diolch i Mr a Mrs H.E. Jones, Utica, Efrog Newydd, U.D.A. am anfon y llun uchod inni ac am nifer o'u hatgofion. Sonia Mr Jones fel y gadawodd am Awstralia gyda Tom, Ty'n 'Radd ym Mehefin 1925. Cyfarfyddodd â thri o'r dynion sef Idwal Williams, Brynrefail, Roland Jones ac Idris P. Jones, yn ddiweddarach yn y chwarel yn Utica. Yn y tridegau roedd nifer o deuluoedd o fro'r Eco yn byw yng nghyffiniau Utica. Erbyn hyn dim ond Ifan P. Jones a Bil Williams, Tŵr sydd yno. (Mae gan Bil Williams frawd yn byw yn Llanrug.) Dyma enwau rhai o'r dynion yn ôl Mr Jones (yn sefyll o'r chwith i'r dde): Ned Green, Cwm; Siôn Tyddyn Isaf; Ifan Parc, Ceunant, Llanrug; Moi Post (gyda'r bibell). Idwal Williams, Brynrefail; Roland Jones (trydydd o'r dde); Dafydd (Lettuce) Llanrug (ail o'r dde). Yn eistedd ar y chwith yn y blaen Idris Pugh Jones, Dinorwig.

STORIAU'R CYFAR MAIN

y Gwalch

'DOES yna ddim felly a felly ers pan gafodd f'ewythr Ellis ei yrru o'r wlad 'ma am botsio ffesants. Mi fuo yn gaucho ym Mhatagonia am dipyn. Wedyn, mi aeth i Awstralia i ffarmio defaid. Yn y rhyfel gynta, mi ddaeth yn ei ôl i amddiffyn yr un wlad, ac yn y weithred, cafodd ei ladd ar y Somme, a thrwy hynny, ddiogelu'r fraint i mi, o gario y ddefod ymlaen yn yr un hen blwy.

Mae hi'n saff i gyfadda ella erbyn hyn y byddwn i yn mynd i'r coed ar noson ola, hefo gwn, a disgwyl yn y cyfnos i'r ffesants ddwad i mewn o'r soffl i glwydo. Mi fydda yna siawns i'w gweld nhw wedyn, rhyngthaf fi a'r gola, ond busnas arall oedd gallu mynd yn ddigon agos am ergyd, ac mi welais dderyn neu ddau yn syrthio i'r dyryslwyni a mynd o fy ngolwg i am byth.

Rhyw noson 'roeddwn i yng nghyfar Rhyda, ac mi saethais ddau geiliog yn ymyl ei gilydd. 'Roedd hi'n noson dawal, a sw'n yr ergydion a'r fflama o ffroen y gwn yn ddigon a gneud i rywun feddwl fod y ne flys syrthio.

Pan oeddwn i yn hel fy nhacla at ei gilydd, dyma fi yn clywad sw'n pric yn torri o dan droed, a dyma fi'n ama fod yna rhywun rhyngddda fi a fy niddosrwydd. Felly, i'w taflu nhw oddi ar y trywydd, dyma fi yn ei hegli hi i gyfeiriad arall, ac am dy Siani'r Efail.

'Roedd Siani yr adag honno ar ei hen sodla, ac mi wyddwn y bydda hi yn mynd i'w gwely cynta y bydda hi'n tywyllu er mwyn arbad tân a gola, ac 'roedd yna gnafon unwaith wedi panu tail gwartheg ar y ffenast yn y nos, ac oherwydd nad oedd ganddi hi gloc na pheth, mi fuo yn ei gwely am ddwrnod yn disgwl iddi hi oleuo.

Fel y deudis i rhyw dro o'r blaen, 'roedd y lle yn berwi o lygod mawr, ac mi fydda Siani yn ei gwely yn ei barclod bras, a phastwn onnan wrth ei hochr hi i'w stanio nhw yn yr oria mân.

"Pwy sy' na?" medda hi yn y llais main hwnnw o'r siambar pan ddyrnais i'r drws a phen y dyn du hwnnw arno fo.

Toc dyma hi'n agor y baria fel ceidwad y Bastille, ond 'doedd ganddi hi ddim llygedyn o ola, achos yr oedd tanio matsen yn bechod anfaddeuol yn ei heconomics hi.

"Oes 'na rhywun ar dy ôl di?" medda hi, a finna yn styrffaglio tros yr hen gadeiria rheiny oedd yn y lobi bach.

"Cerwch yn ych hôl i'ch gwely," medda fi. "Rosa i ddim yn hir."

Ond daetha hi ddim heb wybod beth oeddwn i wedi ei gael. Ac mi fynnod fodio brestia'r ffesants yn y tywyllwch.

Dyma finna yn taflu fy hun i ista ar yr hen setl fawr honno a'r adar ar fy nghlin, ac er ei bod hi'n dywyll 'roeddwn i'n gwybod yn iawn sut le oedd yno, achos 'roeddwn i'n mynd yno reit amal i ddanfôn menynd.

Mi wyddwn fod yna fwndal o boethwal rhwng y dresal a'r cloc mawr, a hwnnw wedi stopio am byth ar ugain munud wedi un ar ddeg. 'Roedd yna lamp plisman a hogwr cyllill yn crogi wrth y distia, a hen reiffil trwm, a morthwyl tanio arno fo, oedd, am ddim a wydda neb wedi cael ei gario o flaen Quebec.

'Roedd ganddi hi fwrdd crwn moel o flaen y tân hefyd, a'r un hen lestri arno fo yn dragywydd. Mi fydda yn gneud te mewn pot jam hefo'r un dail am dridia neu bedwar, ac yr oedd sgol cael panad o hwnnw, neu ei

daflu o yn jioch i'r twll dan grât yn ei chefn hi, wedi datblygu yn un o'r celfyddydau cain.

A thra 'roeddwn i yn ista ar y setl, dyma fi'n clywad sw'n traed allan yn y lôn, ac yn stopio am funud a mynd ymlaen.

"Oedd hwnna ar dy ôl di tybad?" meddai Siani o'r siambar. Ond ddeudis i 'run gair, dim ond gwrando, a thoc dyma fi'n clywad sw'n llygod yn crafu o fy nghwmpas i, ac mi redodd un tros fy nhraed i yn y diwadd, ac mi 'roeddwn i wedi mynd i ama eu bod nhw wedi ffroeni'r adar. A 'doeddwn i ddim yn teimlo yn gyffyrddus o lawar.

"Sgynnoch chi ddim kannwyll yn rhwla?" medda fi wrth Siani. Ond 'doedd hi ddim awydd gwastraffu, nes y deudais i fod gen i fatsian.

Mi ges hyd i gannwyll yn y diwadd ar y sillf ben tân, ac ar ôl i mi danio mi dawelodd y llygod am dipyn, ond gyda hynny dyma fi'n gweld pen a 'sgwydda un ohonyn nhw yn ymddangos yn y twll mawr hwnnw oedd gan Siani yn y sgyrin wrth ochr y cloc mawr, ac mi gododd y gnawas arswyd arna i, achos 'roedd ganddi hi fwng fel merlan fynydd. A dyma fi'n estyn am y gwn a rhoi catran yno fo, a phan ddaeth ei phen hi i'r golwg wedyn, dyma fi'n gollwng ergyd iddi hi reit ar draws y gegin, nes 'roedd y lle yn sgytiau ac yn llawn o fwg glas ac oglea cordeit.

Mi glywis yr hen Siani yn rhoi sgrech fel sgwarnog mewn bagal, a'r peth nesa, 'roedd hi yn nrws y siambar a'i llaw ar ei brest a'i phastwn yn ei llaw.

"Be wyt ti'n neud i fy nhŷ i?" medda hi. "Cychwyn hi am adra na. 'Gora'i byth mo'r drws i ti eto, tasa 'na haid o gythreiliaid wrth dy gwtyn di."

Ond gneud wnaeth hi - a hynny drannoeth, achos, 'roeddwn i wedi gadael yr adar a'r gwn yno tros nos ar ben y dresal rhag ofn i mi fynd ar fy mhen i rywun na ddylwn i ddim.

Bora wedyn, a hitha'n farrug, mi es at yno a rhyw fag o dan fy nghesal, cymryd arna fynd â hannar dwsin o datws i wraig weddw, ac 'roeddwn i'n disgwl cerydd. Ond 'roedd Siani mewn hwylia, a'r peth cynta ddeudodd hi, oedd,

"Ws ti be? Mi ges i lonydd reit dda gynnyn nhw drwy'r nos. Mi fydd yn rhaid i ti ddwad yma yn amlach hefo'r gwn 'na." Ac mi ges andros o job ei pherswadio hi beidio gwneud te yn y pot jam.

"Gwrandwch," medda fi. "Well i chi gadw un o'r clogod 'ma." Ac mi 'roedd hi ar uchelfanna'r maes, a dyma hi'n nôl rhyw hen dwb golchi o'r cefn ac ista gyferbyn â fi o flaen y tein tân hwnnw a dechra pluo. Ond 'roedd hi wedi gofalu bario'r drws.

"Wyddost ti be fydda i ofn?" medda hi. "I ti fynd i 'run picil â d'ewyth."

"Ddim peryg," medda fi. "Mae nhw wedi rhoi gora i roi transport i bobol."

"Ella bod nhw. Ond mae nhw'n dal i grogi - cofia hynny."

Ac ar hynny dyma glec mwya

uffernol uwch ein penna ni, a dyma lechan brestin y simdda yn hollti yn ddwy fel llen y Deml ac yn dymchwel am ben y ffendar a'r stôl haearn, a chyn i ni sylweddoli yn iawn beth oedd yn mynd ymlaen, dyma faen yn syrthio i lawr o'r simdda ar y grât fel tasa fo wedi cael ei ddodwy gan ryw ostrich, ac yn bowndian ar dwb plu Siani a dymchwel y bwr crwn a'i lestri a'i bot jam yn un bonsh ar lawr.

Wn i ddim beth wnes i yn iawn, ond pan ddois i ataf fy hun yn ddigon i gymryd sylw, dyna lle 'roedd Siani ar lawr yn gymysg â'r deryn a'r plu ac yn pwyso ei chefn ar y setl yn spio ar y llanast a chnoi congol ei barclod bras. A ddeudodd yr un ohonan ni air wrth ein gilydd am tua phum munud. Ond yn y diwadd dyma hi'n deud,

"Mi 'rwy'ti a'r hen lygod 'na wedi witsio'r lle 'ma," ac mi gymrwn fy llw ei bod hi yn coelio hynny hefyd.

Yn y diwadd, ar ôl sobri, dyma ni'n haldian y maen allan drwy'r drws, a thwtio tipyn ar y llanast, a

dyma hi'n deud y basa panad o de yn dwad â ni atan yn hunan. Ac wrth feddwl am hynny, mi ddaeth yna un fendith allan o'r helcid i gyd. Mi gafodd Siani hyd i bot jam newydd, glân i neud te.

Ond mi fuo'r twll yn y simdda am fisoedd, a 'doedd o yn pryderu dim ar Siani, achos 'doedd hi ddim yn un arw am dân, ac erbyn heddiw tydy hynny fawr syndod. Mi fuo farw werth ei miloedd - yr adag honno.

Ond mi 'rydw i'n cofio beth ddeudodd fy nhad pan es i adra hefo dim ond un ceiliog a deud mod i wedi rhoi'r llall i Siani fel rhyw iawn am loches y noson cynt.

"Mi 'rwy'ti'n un gwantan hefo merchaud," medda fo. "Ond fedri di ddim prynu dy hun allan ohoni hi hefo ceiliog ffesant bob tro - cofia hynny."

"Ydach chi'n meddwl?" medda fi, yn ddigon gwirion. Ond erbyn heddiw mi wn beth arall. 'Roedd o yn iawn.

DINORWIG

O'R YSBYTY - Da gennym ddeall fod Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch yn gwella wedi triniaeth feddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, yn ddiweddar.

LLONGYFARCHWN - Mr a Mrs Alun Phillips, Maes Eilian ar eni wyrion iddynt, Dafydd a Tristan, meibion i Mr a Mrs Paul Phillips yr Almaen.

Hefyd i Mr a Mrs John Roberts, Maes Eilian, ar enedigaeith wyres fach iddynt, Gwenllian Haf, plentyn Mr a Mrs John Eryl Roberts, Maes y Cymmer, Hengoed, Morgannwg Ganol.

COFION - Anfonwn ein cofion at gleifion a rhai mewn profedigaeth.

BETWS GARMON

TRYCHINEB Y MODUR

'Roedd Guto yn y gegin

Yn rowlio baco siag,

A'r car yn araf symud

Heb neb yn gwylio'r trac.

'Rôl gwneud rhyw ffafr â'r teulu

Ffwdanodd Griff i'r tŷ,

Anghofiodd roi yr handbrake

Er cymaint yw o bry.

Y wraig oedd yn tafodi

Tra Guto bach yn fud,

Pa iws oedd dadlau bellach

A'r car ar domen byd.

Mae straeon bach yn cario

Am gymwynaswr mawr,

A Huw Drws Coed yn chwerthin

Ar ben y llanast fawr.

Wel, Guto bach rhaid cofio

Dy fod yn mynd yn hen,

A phaid a gadael Huwco

I'th longyfarch gyda gwên.

TAN-Y-COED

MARW - Dydd Sul, Ebrill 11 yn Ysbyty Bryn Seiont, bu farw Mr John Williams, Cartref. Claddwyd ef ym Mynwent y Plwyf Llanrug ddydd Mercher, Ebrill 14 gyda'r Parch W.O. Roberts yn gweinyddu.

Cydymdeimlwn â'i chwaer Miss Nance Williams, a'i nai Mr Michael Williams, Cartref a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

COFION - Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Jennie Rees Hughes, Oerddwr sydd yn yr ysbyty. Gwellhad llwyr a buan iddi.

LLONGYFARCHIADAU - i Manon Llwyd Evans, Carwyn ar basio Arholiad 3 Canu'r Delyn, gyda theilyngdod. Ei hathrawes yw Mrs Rona Roberts, Bangor.

Treuliodd Manon Ll. Evans, Bethan L. Parry a Wendy Roberts egwyl hapus yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog wythnos wedi'r Pasg.

Bore Sul y Pasg yn Ysgol Sul Tan-y-coed cafwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu Gŵyl y Pasg, y gwasanaeth o drefniant Manon a Bethan.

BEDYDD - Dydd Mawrth Ebrill 14 yn ei chartref, Cefn Llwyd, Cwm-y-glo bedyddiwyd Margaret Siân, merch fach Mr a Mrs Gwynfa Pritchard, - y Parch W.O. Roberts yn gweinyddu.

Llawenydd oedd gweld nifer o blant y fro - alltudion yn Lloegr - gartref dros y gwyliau.


Wel, cymer gyngor Guto
Gan ŵr profiadol iawn,
Rho'r brêc yn syth i fyny
A'r lifar gôr i lawr.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CROESAIR MAI



AR DRAWS:

1. Dwthwn (7)
5. Rhed drwy'r gwythiennau (5)
8. Pan newidia dy lin, daw ffolineb yn amlwg (5)
9. Henaduriad (7)
10. Cyfnodau byrion (9)
12. Lles (3)
13. Diddanu (6)
14. Ymbil (6)
17. Peth ffyrnig yn newid gêr (3)
18. Ystyfnig (9)
20. Anferth (7)
21. Pori (5)
23. Troi'r golau i ffwrdd (5)
24. Dec dwbl? (3,4)

I LAWR:

1. Mae ieir yn gwneud hyn (5)
2. Yn y swildod mae bachgen (3)
3. Gwledd briodas (7)
4. Di-ddiwedd, cyson (5)
5. Taflu allan o'r cymysgedd o ddal deri (7)
6. Hysbys (9)
7. Iselhau (7)
11. Er cof ar garreg (9)
13. Arogl drwg (7)

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£5.50 - Di-enw, Llanberis ac hefyd Mr a Mrs H. Lewis, NSW, Awstralia.

£5.00 - Di-enw, Llanberis ac hefyd Di-enw Llanrug.

£1.50 - Ronnie Llanbabs Williams, Caerlyr.

£1.00 - Mr P.W. Williams, Corby.

50c - Mr W. Roberts, Backford, Caer; A. Jones, Wavertree, Lerpwl.

2 ddoler - Mrs Miriam Roberts, Wyoming, U.D.A.

£2 - Miss K. Jones, Prenteg, Deiniolen.

£1 - Mrs Myfi Roberts, 2 Tai Plastirion, Llanrug; Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

50c - Mrs Coombs, Cilwern, Penisarwaun.

£3.00 - Mrs A.L. Parry,

15. Testun cerdd y goron ym Machynlleth y llynedd (7)

16. Adar (6)

18. Bloedd (5)

19. Toriad dydd (5)

20. Fan hyn (3)

Cyfrif y llythrennau canlynol fel un llythyren ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu. Anfonwch eich cynigion i **Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.**

Atebion Croesair Ebrill: Ar Draws: 3. Caerydd, 7. Marwor, 8. Begera, 9. Gelsion, 11. Winc, 12. lâr ffesant, 17. Rhwyg, 18.

Caethiwed, 19. Sadwrn, 20. Y melys, 21. Addunedu.

I Lawr: 1. Cwm-y-glo, 2. Parseli, 3. Croesor, 4. Robin, 5. Ysgawen, 6. Planc, 10. Opera, 13. Arglwydd, 14. Anthema, 15. Tawelwch, 16. Cadw swm, 17. Rhosyn, 18. Canon.

Enillydd: E.M. Jones, 20 Maes Padarn, Llanberis.

Bodafon, Ceunant.

£2.00 - Mrs A.M. Morris, 4 Marian Terr., Deiniolen.

£1.00 - Mrs E. Close, 16 Maes Gwylfa, Deiniolen.

£5.00 - Mr a Mrs T.E. Jones, Cartrefle, Waunfawr.

Sauna
Gwely Haul
Wacsio
Slender
tone

SAUNAMTDANI

Dydd Llun
Dydd Gwener
12.00-9.00pm

**STRYD FAWR
BETHESDA
600140**

DYDDIADUR MAI

MAI

Sadwrn, 1: YR ARDAL - Regata Rwyfo Colegau Prifysgol Cymru ar Lyn Padarn.

YR ARDAL - Gŵyl Lafur yn Undeb y Myfyrwyr, Bangor.

Sul, 2: YR ARDAL - Gŵyl Undeb y Mamau, Esgobaethol yn Eglwys Gadeiriol Bangor am 7.00.

Llun, 3: LLANBERIS - Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

Mercher, 5: LLANRUG - Ffair Wanwyn Plaid Cymru am 7.00.

YR ARDAL - Gŵyl Ddrama Ieuencid yn Theatr Seilo, Caernarfon am 7.30.

Iau, 6: LLANRUG - Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.

WAUNFAWR - Sefydliad y Merched. YR ARDAL - Gŵyl Ddrama Ieuencid yn Theatr Seilo, Caernarfon am 7.30.

Gwener, 7: LLANBERIS - Noson o Bingo a Chyw lâr er budd y Frigad Dân yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30.

Llun, 10: DEINIOLEN - Y Cyngor Eglwys yn Ffestri Capel Cefn y Waun. Sefydliad y Merched.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John yn y Ganolfan am 7.30.

Mawrth, 11: BETHEL - Clwb Bro Bethel.

YR ARDAL - Darlith 'Nofelau T. Rowland Hughes' yn Oriel Eryri am 7.30.

LLANRUG - Merched y Wawr, Mrs Mary Vaughan Jones yn dweud ei hanes yn Awstralia.

Mercher, 12: YR ARDAL - Gŵyl Feithrin ym Mangor.

Iau, 13: LLANRUG - Noson Goffi dan nawdd Undeb y Mamau er budd Cymdeithas y Deillion yn yr Ysgol Gynradd am 7.00
Clwb Blodau'r Grug.

Gwener, 14: PENISARWAUN - Eisteddfod.

LLANBERIS - Te yr Henoed.

Sadwrn, 15: YR ARDAL - Ffair Mai, Canghennau Cylch Caernarfon o Blaid Cymru yn y Drill Hall, Caernarfon am 2 o'r gloch. Stondinau, Raffi, Te. Mynediad: 10c, Plant 5c.

Llun, 17: PENISARWAUN - Noson Goffi Undeb y Mamau er budd y Cymorth Cristnogol.

DEINIOLEN - Merched y Wawr.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Mawrth, 18: PENISARWAUN - Clwb yr Heulwen.

YR ARDAL - Recordio rhaglen deledu S4 "Yng Nghwmni Rosalind a Myrddin" yn Theatr Seilo, Caernarfon.

Mercher, 19: CWM-Y-GLO - Merched y Wawr, Noson Goffi.

Iau, 20: YR ARDAL - Cwmni Hwyl a Fflag yn cyflwyno 'Gweu Babis' yn Ysgol Brynrefail am 7.30. Y noson wedi ei threfnu gan yr 'Eco'.

Llun, 24: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Iau, 27: LLANBERIS - Gwibdaith Undeb y Mamau.

WAUNFAWR - Merched y Wawr.

Gwener, 28: YR ARDAL - Yr ysgolion yn cau am hanner tymor.

WAUNFAWR - Noson yng nghwmni Dylan, Traed Wadin, Parti Eryri a Trefor Selway yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. Yr elw at Gronfa'r Ganolfan. LLANBERIS - Te yr Henoed.

Llun, 31: LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

DYDDIADAU I'W

COFIO

Mehfin 2-5 - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhwllheli. Mehfin 14 - Gwibdaith Clwb Bro Bethel i Wrecsam.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

CHWARAEON

MARATHON

NA! Nid llun un o redwyr marathon Eco'r Wyddfamo'r creadur hwn, ond roeddynt yn teimlo felly ar ddiwedd y daith hir o Bontrug i Ben-y-Pas ac yn ôl i Lanrug. Marathon o daith. Ac i greadur o'r enw Pheidippides y mae'r diolch(!) am gychwyn yr holl beth.

Yn ôl traddodiad negeseuwr Groegaidd oedd Pheidippides a redodd o wastadedd Marathon i Athen i gario'r newyddion da am fuddugoliaeth yn erbyn y Persiaid. Ar ôl trosglwyddo'r neges, disgynnodd yn farw.

Pentref rhyw 24-25 milltir o Athen yw Marathon. Yn agos i'r fan hon y glaniodd milwyr o Atheniaid i'w cyfarfod, ac ymladdwyd Brwydr Marathon yma, rhwng y pentref a'r môr. Dywedir i Pheidippides redeg i ofyn cymorth gan Sparta, ond yr oedd yr Atheniaid wedi gorchfygu'r Persiaid hebddynt. Yn ôl traddodiad diweddarach, dywedir mai Pheidippides fu'n gyfrifol am gario'r newyddion am y fuddugoliaeth i Athen.

Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, awgrymodd Ffrancwr o'r enw Michel Breal, gynnal ras i'w henwi ar ôl Marathon. Arweiniodd hyn i nifer o rasus dros bellter yn amrywio o 24 i 26 milltir. Yn 1924 y gosodwyd y pellter safonol fel 26 milltir a 385 llathen – pellter a redwyd gyntaf yn ystod gemau Olympaidd 1908. Roedd y Frenhines Alexandria yn awyddus i'r ras ddiweddu o flaen y Bocs Brenhinol, a dyna'r rheswm dros ychwanegu'r 385 llathen.



Doedd tîm Eco'r Wyddfa ddim wedi mesur y pellter mor fanwl â hynny (doedd dim brenhines eisiau gwyllo'r diwedd!), ond rhaid cofio fod y rhedwyr wedi gorfod dringo i uchder o 356 metr neu 1169 troedfedd.

Mae rhedeg Marathon wedi dod yn boblogaidd iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, ac y mae amryw o rasus wedi eu cynnal yn yr ardal hon – e.e. Ras yr Wyddfa, Hanner-marathon Caernarfon. Pwy a wŷr na welir Ras Marathon Eco'r Wyddfa yn y dyfodol agos?

PÊL-DROED – MIS PRYSUR

Mae mis prysur o flaen clybiau pêl-droed bro'r 'Eco'. Erbyn y daw rhifyn nesaf y papur o'r wasg, mae'n fwy na thebyg y bydd canlyniadau pêl-droed tymor 1981-82 wedi eu setlo. Tybed a ddaw'r bencampwriaeth yn ôl i Lanberis eto'r tymor hwn? Ychydig wythnosau'n ôl roedd y ras am y bencampwriaeth rhwng Llanberis a'r Felinheli, ond mae'r ddau dîm wedi llithro'n ddiweddar, a gallai Pwllheli ddwyn y clod oddi ar y ddau. Mae gobeithion Llanrug am y Gynghrair wedi diflannu bellach, yn enwedig ar ôl y grasfa a gawsant yn y Felinheli o 5-0; a rhaid iddynt hwy bellach droi eu golygon tua'r cwpanau. Mae Bethel yn ymladd unwaith eto rhag diweddu ar waelod y gynghrair, ond daeth canlyniadau boddhaol iddynt yn ddiweddar, a bydd y sgarmes rhwng yr hanner dwsin ar waelod y gynghrair yr un mor ddiddorol â'r ymladdfa'n y pen arall.

Colodd Llanberis dri phwynt gwerthfawr yn ystod yr wythnos ddiwethaf, gan chwarae gêm gyfartal yn erbyn Mt. Rangers ac yna colli yn erbyn Pwllheli o 3-1.

Camodd Llanrug i mewn i rownd gyn-derfynol Cwpan Morrings ar ôl curo yn Hiracl ar yr ail gynnyg. Daeth cryfder Hefin Pritchard i'r amlwg yno, a sgoriodd dair gol mewn gêm gyffrous.

Enillodd Bethel eu trydedd gêm y tymor hwn yn erbyn Tal-y-sarn o 2-1,

ac yna chwarae gêm gyfartal yn erbyn Porthmadog. Bellach mae chwech o dimau ar waelod y gynghrair a dim ond dau bwynt yn eu gwahanu. Pe bai Bethel yn parhau i ennill eu gemau olaf y tymor hwn, byddai siawns ganddynt i ddiweddu yng nghanol y tabl.

Ddydd Sadwrn, Mai 1af ar gae Parc Meurig, Bethesda, bydd gêm derfynol Cwpan Ieuenctid Gogledd Cymru yn cael ei chwarae rhwng Llanberis a Chaergybi. Pob lwc i'r



Un o'r cyfnodau cyffrous yn y gêm ddiweddar rhwng Llanrug a Llanberis ar gae Eithin Duon. 1-1 oedd y sgôr.



Owain Eilir Jones a Paul Williams ar ddechrau'r Marathon. Mrs Dilys Jones sy'n cychwyn y rhedwyr.



Ar y daith: Ger Pont-y-Gromlech a chyrraedd Pen-y-Pas.



Bron cyrraedd yn ôl i Lanrug – ac un o'r golygyddion yn cadw cwmni i'r rhedwyr. Ein diolch i Mike Lamb o Gadlanciau Sant Ioan am roi ei amser i ddilyn y rhedwyr.

hogia' yn y gêm bwysig hon. Ni fydd Llanberis yn chwarae y diwrnod, hwnnw, ac y mae Llanrug wedi trefnu i gychwyn eu gêm hwythau am 11.30 yn y bore er mwyn rhoi cyfle i'w

cefnogwyr hwythau fynd i wyllo'r gêm. Cawn adroddiad a lluniau yn y rhifyn nesaf.

Dyma safle timau'r ardal yn y gynghrair:

	CH	E	Cyf	Coll	O.BI	Yn Er.	Pwynt
Llanberis	21	17	2	2	74	25	36
Llanrug	22	12	4	6	66	42	28
Bethel	20	3	4	13	36	78	10

ECO'R WYDDFA YN TARO DEUDDEG!!

– ond Papur Menai yn mynd yn well.

Do, fe ddaeth sialens i dîm pêl-droed 5-bob-ochr yr Eco. Yn anffodus, doedd y sgoriwr ddim yn medru cyfri yn dda iawn, a thîm Papur Menai a orfu o 13-12 mewn gêm gyffrous yn Neuadd Chwaraeon y Brifysgol, Bangor.

Diolch i swyddogion yr Eco am chwysu mewn dull gwahanol am unwaith. Dyma'r tîm: Hefin Jones (dosbarthwr Llanrug) – wedi ei fenthycu o dîm Llanrug am y noson. Ian Pierce; Twrog Jones; Dafydd Thomas; Tony Elliott – gôl-geidwad. Hoffai wadu unrhyw ensyniad mai arno fo 'roedd y bai am fuddugoliaeth Papur Menai – ond fe

sgoriodd – ac nid i dîm yr Eco.

Dyma'r sgorwyr: Hefin Jones, 7; Twrog Jones, 2; Ian Pierce a Dafydd Thomas, 1 yr un – ac un yn anrheg gan gefnwr Papur Menai.

Bydd y tîm yn ailchwarae yn y dyfodol agos, ac nid oes unrhyw wirionedd yn y si fod yr Eco yn chwilio am gôl-geidwad arall.

Llun ar dudalen:15